



Tudalen 24

PRIODAS



Tudalen 26

YMWELIAD



Tudalen 30

CLWB GOLFF DYFFRYN PERIS

ECO'r Wyddfa

Rhif: 420
Ebrill 2014
Pris: 60c

Gwnewch bopeth yn Gymraeg.



Mae nifer helaeth o deuluoedd wedi mwynhau gwahanol weithgareddau hybu'r Gymraeg yn Llanberis, ac yn ystod yr wythnosau diwethaf cafodd y plant lleiaf y cyfle i gyfarfod a rhai o'u hoff gymeriadau o'r rhaglen 'Cyw'. Mae'r lluniau yn dangos y boddhad a gafodd y plant, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. (gweler adroddiad pellach ar dudalen 3).

Ein llongyfachiadau fel ardal i'r Cynghorydd Hefin Williams am fynnu cael gohebiaeth yn Gymraeg gan y Gwasanaeth Cynilo Cenedlaethol. Bu'n rhaid brwydro yn yr Uchel Lys i gael yr hawl sylfaenol. Ein dyletswydd ninnau, drigolion Cymraeg bro'r "Eco", yw defnyddio'r hawl hwnnw, a mynnu ffurflenni Cymraeg bob tro y byddwn yn delio ac unrhyw gorff cyhoeddus.



Buddugoliaeth Hefin

Mae Cynghorydd Plaid Cymru dros Ward Penisarwaun yn dathlu buddugoliaeth dros yr iaith Gymraeg wedi i Farnwyr yn yr Uchel Lys yng Nghaerdydd gytuno bod Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (ns&i) wedi gweithredu 'n anghyfreithlon wrth ddod a'i wasanaeth iaith Gymraeg i gwsmeriaid i ben nôl ym mis Ebrill 2013.

"Dwi wrth fy modd," esboniodd y Cynghorydd Plaid Cymru, Hefin Williams o'r Rhiwlas ger Bangor, un o'r cwsmeriaid wnaeth y cwynion gwreiddiol i'r Asiantaeth ac i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg ymchwilio i'r mater nôl ym mis Ebrill 2013.

"Dwi mor falch fel cwsmer ac fel cynrychiolydd Plaid Cymru. Mae synnwyr cyffredin wedi trechu a gwaith Comisiynydd yr iaith Gymraeg wedi talu ar ei ganfed. Dwi'n falch fy mod wedi gallu dod â'r mater i'r amlwg a'n bod ni wedi gallu ymladd dros yr hyn sy'n iawn i bobl Cymru. Hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd a'i thîm am eu gwaith ac i'r Bargyfreithiwr, Gwion Lewis, a gyflwynodd yr achos mor wych yn yr Uchel Lys yng Nghaerdydd ym mis Chwefror.

"Cyflwynais fy nghwyn fel Cynghorydd Plaid Cymru ac ar ran capeli ac aelodau'r capel yn ein hardal leol. Cawson ni ein diystyru a'n trin â diffyg parch gan ns&i pan dynnwyd yr hawl oddi arnom i ohebu â nhw trwy gyfrwng y Gymraeg. Dwi'n edrych ymlaen at gael cydweithrediad llawn gan yr asiantaeth ac yn edrych ymlaen at gael cydraddoldeb eto i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith."

Yn ôl y Cynghorydd Hefin Williams: "Mae hwn yn gyfle i ni fel siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a thu hwnt i atgoffa ein gilydd i ddewis y botwm



iaith Gymraeg ar beiriannau banc, yn y swyddfa bost, mewn tiliau archfarchnadoedd a llefydd tebyg. Mae angen i ni hefyd gefnogi ein gilydd wrth i ni barhau i ofyn i sefydliadau a busnesau am wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein bywydau personol a phroffesiynol o ddydd i ddydd."

PRIS YR "ECO".

Am y ddau rifyn diwethaf cawsoch wyth tudalen lliw yn hytrach na phedair – a hynny heb godi pris y papur. O'r mis hwn ymlaen, bydd pris yr "Eco" yn codi i 60 ceiniog y rhifyn, neu £6 am y flwyddyn os telir ymlaen llaw. Bydd yn costio £18 drwy'r post.

Dyma'r codiad cyntaf ers 2009. Mae'n parhau'n fargen o gysidro fod papurau dyddiol ac wythnosol lleol eraill yn ddrutach. Gwnewch yn siwr o'ch dogn o newyddion lleol am y flwyddyn i ddod pan ddaw eich dosbarthwr o amgylch gyda'r rhifyn hwn.

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Mai	Ebrill 20	Mai 1	Deiniolen
Mehefin	Mai 18	Mai 29	Brynrefail

RHIF 420
Ebrill 2014
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i**
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Apêl am wirfoddolwyr i greu drama am ieched meddwl

Dwi'n gweithio ar brosiect gydag Amser I Newid Cymru - y mudiad sydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth am faterion ieched meddwl heddiw a lleihau'r stigma sydd ynghlwm wrth gyflyrau ieched meddwl yn ein cymdeithas.

Nod y prosiect yw llunio a llwyfannu drama Gymraeg newydd am ieched meddwl a honno wedi ei chreu fel cywaith gan nifer o unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o gyflyrau ieched meddwl.

Mae naw prosiect cymunedol wedi derbyn arian trwy Gymru fel rhan o ymgyrch Amser I Newid Cymru i annog grwpiau gwahanol trwy'r wlad i gychwyn eu prosiectau ieched meddwl cymunedol eu hunain.

Mae'r prosiect Gymraeg bellach yn apelio am wirfoddolwyr lleol a fyddai'n fodlon tynnu ar eu profiadau yn y maes ieched meddwl ar y cyd gydag unigolion tebyg eraill fel sail ar gyfer y ddrama. Y gobaith yw ei llwyfannu'n lleol i gyd-fynd ag Wythnos Ieched Meddwl Cymru yn yr Hydref.

Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol ym maes y ddrama i gymryd rhan yn y prosiect a bydd Dafydd Williams o Gwmni Red Button Theatre yn cynnig cymorth artistig wrth fynd ati i sgwennu'r ddrama.

Er mai mater i'r grŵp ei hun fydd union gynnwys y ddrama, y gobaith yw creu cynhyrchiad sydd yn dweud rhywbeth pwysig am ieched meddwl yn ein cymdeithas heddiw yn wyneb y ffaith bod problemau ieched meddwl wedi cynyddu cymaint dros y blynyddoedd diwethaf. Cynhelir y sesiynau trafod a sgriptio yn Y Felin Sgwrsio, canolfan gymunedol Y Felinheli, sydd wedi ei osod mewn man cyfleus ar y stryd fawr yng nghanol y pentref.

Dywedodd Sara Powys, sydd yn arwain gwaith cymunedol Amser I Newid Cymru:

'Rydym yn falch iawn i gefnogi'r prosiect cyffrous hwn yng Ngwynedd. Mae dechrau sgysiau o fewn cymunedau Cymru am ieched meddwl yn holl bwysig, os am leihau'r stigma sydd yn dal i fodoli. Mae problemau ieched meddwl yn effeithio ar un o bob pedwar ohonom, felly mae gallu trafod hyn yn bwysig i bob teulu a phob cymuned. Mae'r ddrama yn ffordd greadigol o ddod â phobl ynghyd i wneud hynny.'

Gall unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect gysylltu â mi ar: 07818 068 205 neu aled.job@btopenworld.com

Yr eiddoch yn gywir
Aled G Job
Tŷ Ni, Y Felinheli

Cilgeran,
Bethel

Caernarfon. LL55 1UW

Annwyl Olygydd

Bydd cyfarfod Merched y Wawr, Bethel Ebrill 9fed, yn gyfarfod arbennig gan y gwahoddir dysgwyr y Gymraeg sydd ddim yn aelodau o'r gangen i ymuno efo ni. Y gŵr gwadd ar y noson fydd Geraint Thomas, Panorama, Caernarfon, a chawn gyfle dros banded i fwynhau lluniau o olygfeydd hynod Cymru a chyfle i'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg. Cynhelir y noson yn festri Capel Cysegr, Bethel am 7.30 nos Fercher, Ebrill 9fed. Gwahoddir dysgwyr yn ddynion a merched o Fethel a'r ardal ehangach atom.

Mae'r noson yn cael ei noddi gan Mantell Gwynedd o gronfa Cymraeg Efo'n Gilydd.

Yn gywir

Anne Elis Ysgrifenyddes Merched y Wawr, Bethel

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Huw a Maud Williams, Deulyn, Bethel; Er cof am Arthur Roberts, Caergrawnt, gan y teulu.

£15: Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£10: Bet a Seiriol Owen a'r teulu, Crud yr Awel, Tan y Cae, Bethel; Er cof am Dr Ceri Jones, 2 Llainwen Isaf, Llanberis; Teulu Mrs Katie Ellen Griffiths, gynt o 23 Maes Padarn, Llanberis; Gwen ac Oliver Edwards, Maes Padarn, Llanberis; Miss Louie Pritchard, 20 Dôl Eilian, Llanberis Dilys Evans, Min y Don, Brynrefail.

£5: Mrs Ann Parry, Sycharth, Preswylfa, Llanberis; Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig; Heulwen, Argoed, Waunfawr.

Annwyl Eco'r Wyddfa,
Rydw i yn gwneud prosiect am Waunfawr yn yr ysgol. Ydych chi'n gwybod beth yw'r atebion i'r cwestiynau yma?

Pam na ddim Llan rhywbeth ydy Waunfawr achos mae yna eglwys yma?

Beth ydy'r tŷ hynaf yn Waunfawr? Pa waith oedd pobol y pentref yn ei wneud er stalwm?

Diolch yn fawr.
Gruffydd Llwyd (7 oed)

Aelod o'r teulu neu frind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.
Cost anfon drwy'r post am flwyddyn
- o fewn Prydain: £18.00
Cost anfon dros y we am flwyddyn - £6.00

Cysylltwch ag Olwen Hughes
ar 01286-674839 neu
olwenwaen@yahoo.co.uk

**Gweithgareddau hybu'r Gymraeg
yn Llanberis yn parhau.**

Gwenllian Williams, Swyddog Datblygu Iaith De Arfon,
Hunaniaith

3

PWYLLGOR Y CARNIFAL LLANBERIS

Ar 28ain. o Hydref, daeth Pwyllgor y Carnifal at eu gilydd i drafod gwariant yr arian oedd yn aros yn y Banc ers i'r Carnifal orffen yn y pentre. Wedi hir drafod, fe benderfynwyd rhannu'r arian ymysg gwahanol fudiadau'r pentref fel a restrir isod gyda'u llun.

Yn ychwanegol, fe ddosbarthwyd arian i Grwp Datblygu Llanberis i osod goleuadau Nadolig yn y pentre. Ac i Eglwys Padarn (rhodd i helpu'r gost o osod cegin yn yr Eglwys.)

- | | |
|---|---|
| 1 LLUN PEL DROED IAU
Rhodd at nwyddau chwarae | 2 LUN YSGOL FEITHRIN
Camera Digidol ac Argraffwr |
| 3 LLUN PLAS PENGWAITH
Rhodd o Deledu i'r lolfaf | 4 YSGOL DOLBADARN
Cegin i'r Dosbarth Cyfnod Sylfaen |
| 5 LLUN BROWNIES / GUIDES
Pabell a nwyddau cynorthwyol | 6 LLUN CIG IAU Capel Coch
Rhodd o I- Pad a Mini Wifi |
| 7 Clwb IEUENCTID y Ganolfan
Rhodd o I- Pad a Mini Wifi | 8 MEDDYGFA LLANBERIS
Peiriant gwaed (Coagu Check) |



Cymdeithas Lenyddol Undebol Bethan Jones Parry oedd yn annerch y Gymdeithas y mis yma ac yn dilyn croeso gan Lywydd y noson, Jenkin Griffiths, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar y testun 'Mwy na Geiriau'. Soniodd yn gyntaf am y Parchedig Edward Morgan Humphreys, awdur, cyfieithydd, a ddechreuodd ei yrfa fel 'Foreign Correspondent' i bapur newydd y Times, gan ei fod yn Gymro. Tyfodd fel newyddiadurwr go iawn a bu'n sylwebu yn angladd Lloyd George. Ar y pryd geiriau mewn print oedd y prif ddull o gyfathrebu, ac wedyn daeth y llais yn ffactor bwysig iawn wrth gyfathrebu ar y radio. Erbyn heddiw mae'r teledu yn gallu cyfleu agwedd ddiffuant y cyflwynydd drwy ei ddangos fel pe'n siarad yn uniongyrchol â ni y gwrandawyr.

Tasg hawdd iawn, gan gyn athrawes iddi yn Ysgol Dyffryn Nantlle, sef Glenys Griffiths, oedd diolch i'r siaradwraig am ei chyflwyniad cartrefol braf.

Bydd cyfarfod mis Mawrth yn Ffestri Bethel ar Fawrth 18fed. gyda William Owen yn sgwrsio ar y testun 'Hiwmor'.

Clwb Bro Bethel Ar wahoddiad y Pennaeth a'r Staff cynhaliwyd cyfarfod y mis yma yn yr Ysgol, gyda nifer dda o aelodau yn bresennol. Cyngerdd Gŵyl Ddewi oedd yr achlysur a bu i holl blant yr Ysgol gymeryd rhan gan gyflwyno eitemau offerynnol, llafar, canu a dawnio. Braf oedd gweld pob plentyn, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn rhoi o'i orau. Yn ogystal â chael ein diddanu gan y plant gweiniwyd panad a chacen i bawb ac i ddangos gwerthfawrogiad o'r cyfan cyflwynwyd rhodd o £53 i'r Ysgol gan yr aelodau. Wrth ddiolch ar y diwedd cyfeiriodd y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, at ddwy o'r aelodau, sef Gwyneth Hughes, a oedd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, a Maud Williams ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, Ebrill 1af. yn Ffestri Bethel yng nghwmni John Williams, Llanllyfni.

Nabod eich Gilydd – Nos Fercher, Mawrth 12, cafwyd noson i'w chofio yn Ffestri Capel Cysegr, Bethel, pan gynhaliwyd unwaith eto gystadleuaeth 'Nabod eich Gilydd' – rhaglen a brofodd mor boblogaidd yn y Cysegr dair blynedd yn ôl. Daeth chwe phâr dewr i'r gystadleuaeth i brofi pa mor dda yr oedden nhw'n 'nabod ei gilydd': dwy ffrind, sef Elan a Hannah; Llinos a Lowri Ann (mam a merch) a phedwar pâr priod, sef Phil a Margaret Druce, Alun a Sheila Foulkes, Merfyn a Helen Morris a Dafydd a Llinos Williams. Cawsant eu croesholi – yn hwyliog a doniol – gan yr actor adnabyddus, Maldwyn John, gyda'i briod, Manon Gwynedd, yn sgorwraig gelfydd (ac yn cynnig ambell sylw ysgafn o'i heiddo ei hun yn awr ac yn y man!).

Gwenan Roberts oedd wedi paratoi'r cwestiynau ac aelodau'r Pwyllgor Gweithgareddau a ddewisodd y nifer angenrheidiol yr oedd Maldwyn John am eu gofyn. Bu rhai ohonynt yn destun tynnu coes gan yr holwr ond er gwaethaf gwneud hwyl ysgafn am ben y gwahanol gystadleuwyr, roedd ysgwyddau pawb, gan gynnwys ambell aelod o'r gynulleidfa, yn ddigon llydan i gymryd popeth a anelwyd atynt yn yr ysbryd gorau.

Ar ddiwedd y gystadleuaeth, y pâr buddugol, am gael pob un o'u hatebion yr un fath, oedd Llinos Griffiths (o Lanrug) a'i merch, Lowri Ann, a dyfarnwyd iddynt dystysgrif bob un (gwobr a ddilornwyd gan Maldwyn John, gyda'i goegni ysgafn a doniol arferol).

Tywysydd y noson – i fynd â'r parau o'r naill du yn eu tro i fangre gudd – oedd Gwilym Williams a fo oedd yn gyfrifol am eu diogelwch yn nhywyllwch y capel!

Dathliad Llawen



Bu ymdrech mewn sawl ardal eleni i ddathlu dydd ein nawddsant. Gwnaed ymdrech arbennig ym Methel, ac roedd cyfleusterau y Neuadd Goffa ar ei newydd wedd yn fan priodol. Daeth chwech o ferched y pentref at ei gilydd i baratoi pryd ardderchog, a manteisiodd nifer o'r pentrefwyr i alw i mewn i flas a sgwrsio. Diolch arbennig felly i Falmai Owen, Mary Hughes, Myra Owen, Gwyneth Williams, Beti Owen a Catrin Hughes am y danteithion. Diolch hefyd i Sion Jones am y gwaith hynod bwysig fel tolltwr te/coffi. Trefnwyd raffl ac roedd rhai o ieuencid y pentref wedi paratoi bwrdd prynu a gwerthu. O ddilyn canllawiau Dewi o "wneud y pethau bychain yn dda" cafwyd egwyl bleserus iawn. Diolch i bawb a gyfrannodd, ac ar y diwedd trosglwyddwyd elw o £185 i Bwyllgor y Neuadd. O'r dechrau cartrefol yma yn deillio o ymroddiad criw bychan, gobeithio y gall y dathliad ehangu o flwyddyn i flwyddyn.

CYNGERDD GŴYL DDEWI YSGOL BETHEL 2014

Sawr geiriau ddengys ragoriaeth - iaith gain gwerth y gân, llenyddiaeth. Yn un côr, rhyddhawn y caeth ôl hanes yw'n olyniaeth.

Rhyw hanner ffordd trwy'r cystadlu, cafwyd egwyl o ryw chwarter awr i roi hoe i'r holwr a chyfle i'r gynulleidfa luosog fwynhau panad a sgwrs. Darparwyd y banad gan aelodau'r Pwyllgor Gweithgareddau, Sarah, Llinos, Menna, a Gwenan.

Diolchodd Dr J. Elwyn Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithgareddau, i Maldwyn John a Manon Gwynedd, i aelodau'r Pwyllgor ac i

Merfyn Morris am drefnu'r cyhoeddusrwydd ar gyfer y noson.

Mae'n deg dweud mai dyma un o nosweithiau mwyaf llwyddiannus y Pwyllgor Gweithgareddau. Er bod nifer wedi ymddiheuro ymlaen llaw na allent fod yn bresennol (gan y cynhelid Eisteddfod Gylch yr Urdd yr un noson), roedd y festri'n rhwydd lawn a phawb wedi mwynhau noson hwyliog a chofiadwy.

Diolch Dymuna Bet, Seiriol, a'r teulu ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad ar ôl colli ei chwaer, Hefina. Diolch am y galwadau ffôn, cardiau ac arian at Ymchwil Cancr Cymru

Dymuna Rhian, Erddig, ddiolch o galon i gymdogion, ffrindiau, teulu a chydweithwyr am bob ymweliad, galwad ffôn, cerdyn a rhoddion yn ystod ei gwaeledd. Diolch hefyd i Dr Esyllt, Syrjeri Waunfawr, am ei chymorth a'i chefnogaeth i Rhian, Gareth a Lois drwy gyfnod anodd iddynt fel teulu.

Merched y Wawr

Croesawodd Jen, y llywydd, nifer dda o'r aelodau i'r Caban, Brynrefail i ddathlu Gŵyl Ddewi nos Fercher, Sed Mawrth. Cydymdeimlwyd â Bet a gollodd ei chwaer yn ddiweddar. Dymunwyd yn dda i Rhian fu'n wael yn ddiweddar, gan ddymuno adferiad llwyr iddi a gobeithio ei gweld yn ôl yn y gangen yn fuan. Dymunwyd yn dda hefyd i Rhys mab Rhian sy'n priodi efo Emily dydd Sadwrn, y 9fed o Fawrth.

Dathlodd dwy aelod ben-blwyddi priodas yn ddiweddar, Eirlys a Brian Sharpe, hanner can mlynedd a Liz a John Evans, hanner cant a phum o flynyddoedd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

Dymunwn yn dda i Iolo, mab Ellen Ellis, sydd wedi dechrau ar swydd newydd yn Hong Kong. Dymunwn bob llywyddiant iddo.

Cafwyd llawer o hwyl yn y noson Bowllo Deg yn ddiweddar, ni ddaeth y tim i'r brig, ond cawsom lawer o hwyl a bwyd da.

Dymunwyd yn dda i holl blant y pentre fydd yn cystadlu yn eisteddfodau'r Urdd – yn canu, llefaru, corau, offerynwyr, dawnsio a gwaith celf.

Adloniant ar y noson oedd dau o hogia'r pentre, sef Gethin Griffith a Gwilym Rhys. Mae Gethin yn ei ail flwyddyn yn y Brifysgol ym Mangor a Gwilym newydd ddechrau fel prentis gwneud clociau yng Nghricieth. Gwelsom y ddau ar y rhaglen Cân i Gymru yn ddiweddar, y ddau wedi mynd i'r rownd derfynol, Gethin wedi cyd gyfansoddi y gân 'Dydd yn Dod' efo Ifan Davies a Gwilym wedi cyd-gyfansoddi y gân 'Ben Rhys' efo'i fam Siân. Mae Gwilym hefyd yn brif ganwr 'Y

Bandana' ac yn canu efo'i ddwy chwaer Elan a Marged yn y grŵp 'Plu'.

Cafwyd gwledd o noson –bwffe blasus iawn wedi ei baratoi gan Aled y cogydd, a chanu hwyliog iawn gan Gethin a Gwilym. Rydym yn hynod ffodus fod y ddau wedi bod mor barod i ddod atom ac wedi rhoi cyfle i ni glywed eu doniau cerddorol anhygoel.

Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Anne Elis, a deimlai'n falch iawn ohonynt gan iddi fod yn athrawes i'r ddau tra roeddynt yn Ysgol Bethel. Mae cysylltiad gan y ddau hefyd â Merched y Wawr gan fod nain Gethin, Rita, yn aelod gweithgar iawn yn y gangen ym Methel ac yn is ysgrifennydd eleni a nain Gwilym, Zonia Bowen, yn un o sylfaenydd y Mudiad yn Parc, y Bala, yn 1967.

Enillwyd y raffl gan Mair Read, Eirlys Sharpe, a Gwyneth Jones Bydd cyfarfod nesaf y gangen yn festri Cysegr nos Fercher, Ebrill 9fed am 7.30 yng nghwmni Geraint Thomas, Panorama. Estynnir croeso cynnes i'r cyfarfod i unrhyw un sy'n ddysgwr/ddysgwraig i ymuno â ni ar y noson i gael cyfle i sgwrsio dros baned.

Bydd lluniau o'r noson ar y wefan www.mywbethel.org.uk Merched y Wawr Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn ysgol Friars, Bangor dydd Sadwrn, Mai 10fed. Bydd Gethin Griffith, Gwilym Rhys, Nic Parri, Myrddin ap Dafydd a Gwenan Gibbard yn diddanu ac i gloi'r diwrnod, sgwrs gan Hywel Gwynfryn. Cost y diwrnod yw £20 yn cynnwys coffi a chinio. Os ydych am fynd dewch â £20 i'r gangen nos Fercher, 9fed Ebrill.

CYNLLUN CERDDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN TEITHIAU CERDDDED EBRILL 2014

DYDD IAU 3.4.14 2yp
HANES NANT PERIS (2 milltir)
CYCHWYN: EGLWYS NANT PERIS
EITHA HAWDD. ANGÉN SGIDIA GERDDDED.

DYDD IAU 10.4.14 2yp
EGLWYS LLANRUG: Y LLANRUG CYNNAR (3½ milltir)
CYCHWYN: SGWAR LLANRUG
EITHA HAWDD. SGIDIA CERDDDED.

DYDD SUL 13.4.14 2yp
HANES TREF PORTHAETHWY (2½ milltir)
CYCHWYN: MAES PARCIO COED CYRNOL, PORTHAETHWY
EITHA HAWDD. SGIDIA CERDDDED.

DYDD MAWRTH 15.4.14 2yp
PENTIR, RHOS FAWR A CAERHUN (4½ milltir)
CYCHWYN: TAFARN Y FAENOL, PENTIR
EITHA HAWDD OND HIR. SGIDIA CERDDDED.

CROESO CYNNES I BAWB.

Edrychwch allan ym Mis Mai am daith i bentref coll Cwm Brwynog, cylchdeithiau yn seiliedig ar 'Y Lon Wen' gan Kate Roberts, chwarel Dinorwig a llawer mwy.

Rydym yn cyd-weithio gyda'r ECO i greu sioe sleidiau o hen luniau'r fro. Os oes gennych gymdeithas neu grŵp fyddai'n hoff o weld y sioe cysylltwch a Gareth Roberts yn Menter Fachwen ar 01286 872014 i drefnu dyddiad.

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.

Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Diolch.

Dymuna Dilys Evans, Min y Don ddiolch yn gynnes iawn i deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn anhwylder yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella yn raddol.

Yr Eglwys Bresbyteraidd.

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Hyfrydwch oedd cael gwahodd chwiorydd o Lanrug a’r pentrefi cyfagos i ymuno yn y gwasanaeth arbennig hwn bnawn Gwener, Mawrth 7fed. Roedd awyrgylch ddymunol yn yr Ystafell Gynhadledd gydag arddangosfa wedi ei threfnu i gyd-fynd â thema’r cyfarfod, a hithau hefyd yn bnawn hyfryd o wanwyn y tu allan. Eleni, chwiorydd Gwlad yr Aifft oedd wedi cynllunio y gwasanaeth ar y testun ‘Ffrydiau yn yr Anialwch’. Croesawyd pawb i Frynrefail ac arweiniwyd y gwasanaeth gan Ifanwy Jones. Cymerwyd rhan gan Eryl Roberts, Megan Williams, Glenys Lloyd, Helen Parry, Megan Roberts, Jennie Angharad Roberts, Dilys Mai Roberts ac Iris Rowlands. Yr organydd oedd Lowri Roberts Williams a hi hefyd draddododd yr Anerchiad yn seiliedig ar y testunau ysgrythurol a’r her i ni gael ein galluogi i ysbrydoli ein cymunedau. Yn dilyn, mwynhaodd pawb luniaeth wedi ei baratoi a’i weini gan staff Y Caban.

Y Gymdeithas. Bydd cyfarfod cyntaf o’r Gymdeithas am y tymor yn cael ei gynnal ar nos Iau, Ebrill 3ydd. Y siaradwr gwâdd fydd ein gweinidog, y Parch Marcus Robinson a’r cadeirydd fydd Gwyn Hefin Jones, Rhandir.

Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, ar ddod yn Hen Nain i Guto Rhys, mab bach Gari a Lisa ac ŵyr cyntaf i Nerys a Hugh.

Hoffem ddymuno, ar yr un pryd, ben-blwydd hapus iawn iddi ar ei dathliad 90 mlwydd oed ar 21ain o Ebrill. Pob dymuniad da ichwi.

Oedfaon Ebrill

6ed am 5.30 : Y Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
13eg am 5.30 : Y Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.
20fed Sul y Pasg am 2.00 : Canon Idris Thomas, Deiniolen (Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd).
27ain am 5.30 : Parch Gwenda Richards, Caernarfon.

AR WERTH
Bwrdd a 6 cadair ar gyfer
ystafell fwyta. (coedyn
tywyll) (cyflwr ardderchog)
Gwneuthuriad-YOUNGER
Os am fwy o fanylion, cysyllter a 01286 673776

TM

JONES

SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYNUD
A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

Clwb y Merched Wedi noson hwyliog iawn yn dathlu Gŵyl Ddewi edrychwn ymlaen i noson yng Nghanolfan y Capel nos Iau, Mawrth 27ain am 8, pan fydd Mandy Watkins o Borthaethwy yn siarad am “Interior design”, pwnc amserol i dymor y Gwanwyn. Mae rhaglen y flwyddyn yn prysuro i ben, ac ar Ebrill 24ain, eto yn y ganolfan, disgwyliwn Ffion Johnstone, prif fferyllydd yn Ysbyty Gwynedd. Mae croeso cynnes i holl ferched y pentref, ac i ymwelwyr.

Tynfa Misol Dyma’r enillwyr am fis Mawrth. Tony ac Eirian Griffiths, Anedd (50) £40; Nan Hughes Roberts, 10 Erw

Wen (78) £25; Bryn a Dilys Griffiths, Delfryn (31) £15; A. a T. Jones, Islwyn, Stad Glandŵr (11) £5.

Cais gan eich gohebydd Anfonwch newyddion cyfredol erbyn y trydydd Sul yn y mis os gwelwch yn dda, trwy y drws, ar y ffôn neu i’r cyfeiriad e-bost uchod. Mae prinder newyddion ar hyn o bryd.

Gwasanaethau y Capel Ar Ebrill 6ed am 2 o’r gloch, ac ar Sul y Pasg, sef Ebrill 20fed am 2 o’r gloch, gwasanaethir gan y gweinidog Y Parch Marcus Robinson. Llywydd y mis yw Eryl Jones, a’r organyddes yw Bethan Iwan.

CWMY GLO

Cydymdeimlad Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Tony Thomas a’r teulu, Gwylfa, yn ei brofedigaeth lem o golli ei fam, Mrs Joan Thomas yn Llanberis.

Undeb y Mamau.

Cafwyd cyfarfod yn Eglwys Santes Mair, Caernarfon brynhawn Mawrth 18fed. Croesawodd yr arweinydd bawb i’r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth oedd yng ngofal Iris.

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Iola, Nerys a Gwyneth.

Darllenwyd cofnodion o gyfarfod mis Chwefror a chytunwyd eu bod yn gywir. Cafwyd adroddiad gan Auriel ar y cyfarfod a gafwyd yn Swyddfa’r Ddeoniaeth, Bangor ar 13eg o Fawrth a thrafodwyd rhai o’r materion.

Y Rheithor, y Parch Roger Donaldson oedd ein gŵr gwâdd, a’r pwnc ganddo oedd ‘Gweddïau drwy’r Grawys’.

Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Louie Jones a Mrs Jennie Salisbury Jones. Rhoddwyd y raffl gan Louie ac fe’i henillwyd gan Auriel. Diolchwyd i’r Rheithor gan Auriel ac i’r gwesteion gan Hilda. Terfynwyd trwy adrodd y gras. Bydd y cyfarfod nesaf ar 16eg o Ebrill.

J. M. JONES

a’i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

COFIO ELEANOR

Ar nos Fercher (12 Chwefror) cafwyd yma yn Neiniolen storm o dywydd mawr ond bore Sadwrn (15 Chwefror), daeth storom bywyd i Glasfryn, 7 Ffordd Deiniol.

Sioc a braw i bawb oedd clywed am farwolaeth Eleanor Morris - anodd oedd dygymod â'r ffaith drist ei bod wedi ein gadael. Aeth ein cydymdeimlad gyda Derek ei phriod, ei phlant Sandra a Gerallt a'i gymar Cheryl, ei hŵyr Gwydion, ei brawd Gwilym a'i chefnider Eifion.

Roedd Eglwys Llandinorwig ar fore Sadwrn 22ain Chwefror yn orlawn i'w chynhebrwng a dywed hyn gyfrolau am boblogrwydd Eleanor ymysg pawb.

Ers iddi ddod yn Warden yr Eglwys chwe mlynedd yn ôl teimlad chwithig iawn y bore hwnnw oedd dod trwy ddrws yr Eglwys ac Eleanor ddim yno i'n cyfarch yn ei ffordd ddihaful ei hun.

Yn stryd Tai Ffatri yn y Groeslon y'i ganed, yr hynaf o bedwar o blant i'w rhieni Bob a Myfanwy, ei brodyr oedd Gwilym, Eric a Kenneth a chyfrifai Eleanor ei chefnider Eifion fel brawd iddi yn ogystal.

Symudodd y teulu wedyn i Dre Wen yn y Groeslon. Mynychodd Ysgolion Penfforddfelen a Dyffryn Nantlle a chofiai fynd ar y trên i'r Ysgol Uwchradd.

Trawyd ei mam yn wael iawn ar un cyfnod ac oherwydd hyn bu Eleanor yng Nghartref Gofal Plant Bontnewydd am gyfnod tra aeth ei brodyr i gartref cyffelyb yn Llandudno. Derbyniodd ofal cwbl arbennig yng Nghartref Bontnewydd a dylanwadodd y cefndir crefyddol cryf ymneilltuol yno yn drwm ac yn arhosol arni.

Ar ôl dyddiau Ysgol aeth i weithio i gwmni Roberts & Sons ar lannau'r Fenai yn y Felinheli ac yno yn gweithio roedd Derek a, chwe mlynedd yn ddiweddarach, priododd y ddau yng Nghapel Brynrodyn ar yr 17eg o Fedi 1966.

Symudodd y ddau i'w haelwyd gyntaf yn rhif dau Rhes Marian yma yn y pentref a buont yno am ddeng mlynedd cyn symud i'w haelwyd bresennol.

Parhaodd Eleanor i weithio a hynny yng Nglynrhonwy a Ffatri Feranti ac yna fel gofalwraig yma yn Ysgol Gwaun Gynfi. Roedd yn ei helpen ymysg y plant ac fe gofir gan y disgyblion hyd heddiw y geiriau a adroddai yn ysgafn wrthynt, sef "Elinora ar i gora yn licio brechdan Flora!"

Yma yn Neiniolen, oherwydd ei hagwedd iach gymdeithasol, adwaenai pawb Eleanor a hynny am ei bod yn gymwynasgar, caredig, ffraeth, eangfrydig, yn hoff o sgwrsio, cerdded, sgwennu penillion, canu, cymdeithasu a bod ymysg pobl. Hoffai ganu Cymraeg ac roedd y bytholwyrdd Dafydd Iwan a Hogia'r Wyddfa yn ffefrynnau mawr. Soniai am yr achlysur pan ganodd hefo Dafydd Iwan pan ddaeth i ganu yn y Bull un noson ac Eleanor yn ei seithfed nen!

Soniais am ei charedigrwydd mawr ac un elfen o hyn, oherwydd ei bod yn hoff iawn o goginio, oedd rhannu cacennau ymysg pobl, a jam yn ogystal, a phrofais innau rhain.

Byddai Eleanor, ddwywaith yr wythnos, yn mynd at y cwmni a ddeuai ynghyd i gaffi E.B. yma yn y pentra a mwynhau yr orig ddiddan yno.

Er mai Capelwraig ydoedd cyn priodi, ar ôl cyrraedd Deiniolen deuai i Eglwys Llandinorwig ac, mewn dim amser, cafodd ei Chonffirmio, sef ei derbyn, a digwyddodd hynny ar y 18fed o Hydref 1970 yn y Gadeirlan ym Mangor. Cafodd dwy arall o'r plwyf hwn eu conffirmio gydag Eleanor, sef Mrs Elen Williams, Chwarel Goch, Dinorwig, a Mrs Jennie Williams, 12 Maes Eilian, Dinorwig. Braint fawr iddi yn 2008 oedd dod yn Warden y Bobl yn Eglwys Llandinorwig. Yn y swydd hon rhoddodd y cyfan a'i gorau i'r gwaith gan gyfrannu llawer mwy na'r hyn a ddisgwyld - un felly oedd Eleanor.

Gwnaeth gymaint yn y swydd wirfoddol hon megis glanhau'r Eglwys, paratoi'r Allor a golchi'r lleiniau, agor a chau yr Eglwys a rhoi'r gwres ymlaen. Roedd yno i bob achlysur a hynny am oriau pan fyddai Priodasau, Bedyddiadau ac Angladdau. Deuai yno, fel y gwn yn iawn, i agor a chynorthwyo pan fyddai plant ysgol a grwpiau ymweld yn galw heibio. Clywais ganmol droeon iddi am ei chydweithrediad parod a'i chymorth pan fyddai'r Band, Partion, Corau ac unawdwyr yn cymryd rhan mewn Cyngherddau yn yr Eglwys. Rhoddai Derek, ei phriod, gymorth iddi yn ogystal.

Ond yn bennaf, addoli a wnâi Eleanor bob Sul. Cawsai hyn le canolog yn ei bywyd. Braint oedd i mi wasanaethu yn ei hangladd gyda'r Ficer, y Parch Ddr Carol Roberts, Dr William Monro wrth yr Organ a chyfraniad clodwiw yr adroddwr Carwyn John. Roedd y trefniadau angladdol yng ngofal Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen.

Llinellau o englyn y Prifardd Ieuan Wyn i un arall sy'n gweddu i Eleanor a gollir gennym oll yn fawr:

"Aeth ton ei rhadlon ffrydli,

A mud yw ei bwrlwm hi."

Idris Thomas

YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FFW?

Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683

Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol.
Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

GLANHAWR SIMDDE



Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd

Stôf goed a "Multi Fuel"

Aga/Rayburn- Olew/Nwy

Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

**Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305**

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

Diolch Dymuna Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen ddiolch i Bingo Tŷ Elidir am eu rhodd hael unwaith eto tuag at y clwb. Diolch yn fawr.

Profedigaeth Estynnir ein cydymdeimlad at deulu'r ddiweddar Mrs Alice Thomas, Bro Elidir, Dinorwig, gynt.

Cydymdeimlir hefyd gyda theulu Miss Ellen Wyn, Ty'n Fawnog, Dinorwig, sef cyn athrawes yn Ysgol Gwaen Gynfi am nifer o flynyddoedd.

Llongyfarchiadau i holl blant y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd cylch Arfon a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn Mawrth 8fed, pob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir.

Unawd Bl 2 ac iau: 1. Erin Wyn Williams; Erin Trefor Lewis (canmoliaeth Llwyfan) Rhagbrawf Hir a chystadleuaeth dda.

Cerdd Dant Bl 2 ac iau: 3. Erin Trefor Lewis.

Unawd Bl 3 a 4: 1. Osian Trefor Hughes.

Cerdd Dant Bl 3 a 4: 1. Osian Trefor Hughes; 3. Dafydd Christison Bean.

Llefaru Bl 3 a 4: 3. Osian Trefor Hughes.

Alaw Werin Bl 6 ac iau: 2. Osian Trefor Hughes.

Deuawd Bl 6 ac iau: Ioan Benjamin a Dafydd Christison Bean (Canmoliaeth Llwyfan i gystadleuaeth arbennig o safonol yn y rhagbrawf yn y bore).

Parti Cerdd Dant Bl 6 ac iau (Adran): 1. Lleisiau Llanbabs, Adran Deiniolen.

Côr Bl 6 ac iau (adran): 2.

Lleisiau Llanbabs.

Cân Actol Bl 6 ac iau Ysg – 100/adran: 1. Adran Deiniolen.

Eisteddfod Cylch Arfon Trefnwyd yr Eisteddfod Cylch eto eleni gan Adran yr Urdd Pentref Deiniolen a diolch i Eleri Bean am yr holl waith trefnu ac i bawb a ddaeth i helpu ar y diwrnod.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch Yn ddiweddar, dewiswyd brenhines yr ŵyl a'i gosgordd am y flwyddyn 2014/15:

Alis Mair Jones: Brenhines

Sion Elidir Thomas: Tywysog

Catrin Williams: Tywysoges

Ffion Baston: Merch y blodau

Gwion Owen: Tywyswr bach

Wu Shu Kwan Penisarwaun Llongyfarchiadau i Siôn Huw Owen o Lanberis ar basio ei radd cyntaf belt gwyn, ac i Angharad Elisabeth Jones o Ddeiniolen am basio ei ail radd belt glas cyntaf yn Lerpwl mis diwethaf oddi wrth glybiau Wu Shu Kwan y byd. Os y byddai unrhyw berson, bachgen neu ferch, dros 10 oed yn hoffi cymeryd rhan, dosbarth cyntaf am ddim - cysylltwch â John M. Jones ar 01286 871 694. Croeso cynnes i bawb, ar nos Lun 7.00 - 9.00 a nos Wener 7.00 tan 9.00.

Y Gymdeiths Undebol Cynhaliwyd y Gymdeithas y mis diwethaf yn Nhŷ Elidir a llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchard. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Miss Karen Owen, Penygroes. Soniodd am y profiadau a gafodd a sut y bu iddi eu rhoi yn ei barddoniaeth. Diolchwyd iddi yn gynnes gan

Marwolaeth syfrdanol gŵr arbennig a'i wreiddiau yn Neiniolen

Yn sydyn iawn, ar Sadwrn, Mawrth 8fed, bu farw Jeremy William Lamburn, mab Rosalie Lamburn (nee Hudson). Mynd am dro yn y wlad tu allan i'w gartref yn Rilchester, Lloegr, yr oedd Jeremy tra roedd ei wraig, Susie, meddyg yn Clitheroe, yn dod adref o Lundain, a'i blant Alexander (18) a Frances (16) yn ei aros yn y tŷ.

Trawiad ar y galon a ddigwyddodd i Jeremy, cerddor talentog ar y cello, yn gweithio'n broffesiynol ers blynyddoedd yng ngogledd Lloegr. Bu ei fam, Rosalie Hudson, yn byw yn Neiniolen ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail cyn mynd ymlaen i brifysgolion Aberystwyth a Llundain. Aeth Jeremy, yntau, ar ysgoloriaeth i Bedford School cyn graddio ym Mhrifysgol Efrog ac wedyn arbenigo ar y cello yn y RNCM, Manceinion.

Mae cydymdeimlad arbenniggyda'i deulu, ei wraig a'i blant, ei fam, Rosalie, ei chwaer Maria a'i gŵr, Huw Warren a'u plant, Aaron, Iolo, Loot, Ezra ac Enid ym Mhorthmadog. Ceir manylion pellach oddi wrth ei fam, Rosalie, yn Charton Manor Farmhouse, Mogerhanger, Beds MK44 3RA, rhif ffôn 01767 640930.

Chwaraewyd cerddoriaeth y teulu, er teyrnged i Jeremy, ar daith trwy Gymru, yn dechrau dydd Mawrth, 11eg Mawrth yng Nghaergybi.

Mr Brian Price.

Cydymdeimlodd y llywydd â theulu y ddiweddar Mrs Eleanor Morris, 7 Ffordd Deiniol, a fu farw'n annisgwyl ar ddydd Sadwrn, 15 Chwefror. Penderfynwyd cynnal y swper blynyddol yn y Clwb Golff, Caernarfon, ym mis Ebrill.

Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch i'w

theulu, ffrindiau a gofalmwyr a fu'n ymweld â hi yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Eryri dros y Dolig a'r flwyddyn newydd. Diolch i'r staff yno am eu gofal a hefyd diolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a gofalmwyr am eu haelioni yn anfon y cardiau, blodau hardd a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 99 mlwydd oed yn ddiweddar.

Cefnogwch ein hysbysebwy

ECO'r Wyddfa

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS
M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW
(01286) 870225

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Ble roedd Tyddyn Eithin?

Mae'r dirgelwch ynglŷn â lleoliad Tyddyn Eithin yn parhau. Chwi gofiwch i Elwyn Williams awgrymu yn y rhifyn diwethaf mai yng nghyffiniau Eglwys Llanddeiniolen roedd y tyddyn. Mae lle i amau hynny bellach. Bum yn chwilio hen fapiau o'r ardal, a does dim sôn am dŷ yn y rhan hon o'r plwyf heb sôn am ei enw.

Doedd dim amdani felly ond chwilio am yr enw yn y gwahanol gyfrifiadau, gan ddechrau yn 1851. Ddaeth yr enw ddim i'r amlwg yn rhan isaf y plwyf – hynny yw, y rhan o derfyn plwyf Pentir ar draws ardal Groeslon Tŷ Mawr, Seion, Saron a Bethel a'r terfyn a phlwyfi Llanrug a Llanfair is gaer. Ond yn y triogl rhwng Ynys Iago, Pontrhythallt a Racca (sy'n cynnwys holl bentref Penisarwaen a'r Waen ei hun), daeth yr enwau Cae Eithin a Bryn Eithin i'r amlwg – ond nid Tyddyn Eithin. Ond ble roedd y ddau annedd hwn?

Ar gyfrifiad 1851 mae'r enw Cae Eithin yn ymddangos rhwng Pen y Bryn a Chae Hob- a dyna roi rhyw syniad o'i lleoliad. Robert Roberts, ei wraig, Grace, a thri o feibion oedd yn byw yno, ac y mae'r penteulu yn disgrifio'i hun fel ffermwr ar 40 acer. Roedd pob un ohonynt wedi eu geni o fewn y plwyf. Oedd Cae Eithin felly yn fferm o 40 acer? Ymlaen i 1861...

Yn 1861 mae Cae Eithin yn ymddangos rhwng Efail Castell a Chae Hob – ond mae'n ymddangos fod dau dŷ yno: o leiaf mae dau deulu'n cael eu cofnodi. Y penteulu cyntaf oedd William Jones a'i deulu ifanc. Mae'n disgrifio'i hun fel labrwr yn y chwarel. Y penteulu arall yw Owen Williams, gŵr gwedd 63 oed sy'n labrwr amaethyddol. I ble'r aeth y 40 acer?

Un Cae Eithin sydd ar gyfrifiad 1871, wedi ei gofnodi wrth Cae Hob, a William Jones a'i deulu sy'n dal yno.

Yn 1881 mae Cae Eithin yn cael ei gofnodi rhwng Ynys Iago a Chae Hob, ac y mae William Jones yn dal i fyw yno, ac yn parhau'n labrwr yn y chwarel.

Mae peth newid yn 1891. Cofnodir Cae Eithin rhwng Cae Hob a Glan y Gors. Diflannodd William Jones a'i deulu, a daeth Thomas Hughes a'i deulu yno i fyw. Labrwr amaethyddol oedd o.

Erbyn 1901 doedd yr enw ddim yn cael ei gofnodi. Er chwilio, methais a darganfod Cae Eithin yn yr ardal o amgylch Cae Hob. A newidiwyd yr enw? A gafodd ei adael i fynd yn adfail?

A beth am Bryn Eithin? Daw'r enw i'r amlwg gyntaf yn 1881, wedi ei gofnodi rhwng Tŷ Coch a Baron Hill – ond roedd tri thŷ yno o'r un enw. Felly hefyd yn 1891, ond erbyn 1901 roedd pedwar tŷ yn cario'r enw. Fe'i cofnodwyd rhwng Coed y Parc a Baron Hill, sef Bryn Eithin a rhifau 1, 2 a 3 Bryn Eithin Terrace.

Mae'r ddau enw wedi eu lleoli yn yr un ardal, yn agos i afon Cegin wrth iddi lifo allan o dir corslyd ardal Ffynnon Cegin Arthur i'r tir amaethyddol yng nghyffiniau Cae Hob ac Ynys Iago. Oes cof am yr enwau'n parhau?

Ac yn anffodus, mae Tyddyn Eithin yn dal ar goll!

Casglu Hen Luniau.

Bron na ellir dweud mai Ymgyrch Casglu Hen Luniau ddylai'r testun fod! Cafwyd dros ddwyawr o edrych ar hen luniau'r fro yn Llanrug ddiwedd Chwefror, a chyfarfod tebyg yng Ngwm y Glo ar bnawn ddechrau Mawrth. Gareth Roberts fu'n gyfrifol am y ddau gyfarfod ac am osod yr holl luniau ar raglen gyfrifiadurol i'w dangos. Ond mae angen mwy.

Roedd prinder lluniau o Fethel a Phenisarwaen, ond cafwyd dwsin neu fwy o luniau o Benisarwaen wedi hynny. Cefais innau fenthyca lluniau i'w sganio gan amryw gyfeillion, ac y mae'r casgliad yn tyfu.

Apêl yw hon felly i gysylltu â Gareth yn Menter Fachwen neu gyda mi yn y cyfeiriad isod os oes lluniau yn eich meddiant sy'n dangos unrhyw ardal o fro'r "Eco". Mae'n syndod faint o newid sydd wedi bod mewn cenhedlaeth heb sôn am hanner canrif a mwy. Beth am luniau rhai o'r adeiladau sydd wedi eu dymchwel, siopau sydd wedi diflannu, trenau – y chwarel a'r lein fawr, tu mewn i gapeli sydd wedi cau, carnifalau, sioeau, ffeiriau, cyngherddau ac yn y blaen, ac yn y blaen. Fyddwn ni fawr o dro yn sganio'r lluniau, heb wneud unrhyw niwed iddynt, ond byddant ar gof a chadw am byth wedyn.

Yn ogystal â'r ymgyrch hon, mae'r holl luniau a ymddangosodd yn yr "Eco" ers 1976 wrthi'n cael eu sganio ar hyn o bryd; rai miloedd ohonynt.

Dyma adnodd gwerthfawr i haneswyr cymdeithasol y dyfodol.

Chwalu Cwt y Teiliwr.

Yng nghefn cartref Margaret Cynfi ar Lôn Garnedd roedd cwt a chwalwyd yn yfflon pan ddisgynnodd coeden pin anferth arno yn dilyn gwyntoedd cryf y misoedd diwethaf. Mae'n debyg i'r cwt gael ei godi yr un amser a thŷ Cynfi yn 1888, a gweithdy teiliwr ydoedd. John Roberts, mab Treanna, Gallt y Foel oedd y teiliwr, ac yr oedd hefyd yn flaenor yng Nghefnfyaun. Roedd tri o deilwriaid yn gweithio yno ar un cyfnod, a phan fyddai profedigaeth sydyn, byddai'n rhaid gweithio drwy'r nos i baratoi dillad duon ar gyfer y teulu oedd mewn profedigaeth.

Yn y siop, Cynfi, cai'r cwsmeriaid y cyfle i ddewis defnydd o'r rholiau a gedwid yno. Yn ôl Margaret Cynfi, y rholiau defnydd hyn oedd 'doliau' ei mam, gydag enwau crand ganddi ar bob un. Y rholyn gyda streipen goch fain oedd y crandia ohonynt, a'r rholyn hwnnw gafodd yr enw crandia hefyd: Daisy!

Bu John Roberts y teiliwr farw yn 1923, ond cadwodd ei weddw y siop ymlaen fel siop groser fechan hyd ei marwolaeth hithau yn 1930. Bu mam Margaret Cynfi yn cadw'r siop wedyn hyd 1973. Oes rhywun arall o'r ardal yn cofio'r teilwriaid yn y gweithdy yng nghefn Cynfi?

Gyda diolch am y llythyr cynhwysfawr.

ARVONIA



- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvonias.co.uk

Caffi Caban

ar agor

9 y bore tan 4 y pnawn- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Daeth galwadau ffôn a llythyr yn rhoi bron iawn y cyfan o enwau'r disgyblion a'r athrawon yn y llun. Felly, dyma ail-ddangos y llun y mis hwn gyda'r holl enwau. Diolch yn arbennig i Alvona Jones, Prestatyn (Waunfawr gynt) a Catherine Jones, Waunfawr.

Y ddau athro yn y llun yw Thomas Williams, Tŷ Gwyn a Robert Williams, Tan y Coed. Roedd Thomas Williams yn daid i Alvona Jones, a hi adroddodd yr hanes amdano yn rhoi gwers i blant yr ysgol yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar sut i wisgo 'gas-mask'. Doedd y plant yn cael fawr o hwyl arni, ac o'r diwedd, gwylltiodd Thomas Williams gan ddweud: "Ylwch, dydi'r Jyrmans ddim yn bwriadu anfon teligram i'r Waunfawr i ddeud pryd mae angen i chi wisgo'r masgiau 'ma!" Tybed oedd y plant yn llawn sylweddoli difrifwch y sefyllfa?

Anfonodd Catherine Jones enwau'r plant fel roeddent yn cael eu hadnabod yn yr ysgol. Ei brawd, Eric Dwyfor, yw'r cyntaf ar y chwith yn y rhes gefn (gyda marc gwyn ar y llun). Yna daw Robin Ty Pella, Richard Nefyl, Bill 'Refail, Bobby Lyons ? Humphry Gors Goch.

Yn yr ail res o'r chwith mae Edith Ty'n Wern, ? Sally, Ty'n Ceunant, Nancy Pant Celyn, Eirian Barlow, Agnes Ty'n Wern,

Ysgol Y Waunfawr yn y 1930'au.



Elizabeth Penbryn a Heulwen Graiglwyd.

Yn y drydedd rhes o'r chwith mae Betty Bwlchyyffordd, Myfanwy Garth, Nellie Weston, Collfryn, Eurwen Cefn y waun, a Mamie Gorffwysfa.

Rhes flaen: Gwilym Ty'n Coed, ? Hughie Humphrys, Dewi Glanfa, Owen Wyn, Meirion Gadda.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Cymru Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: 01286 678310
(ar agor 09.00 - 17.00)

Neu ffoniwch

0800 085 3741

neu ewch i

www.ageuk.org.uk/products

AGE
Concern

Age UK

Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.

Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw o logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Tavistock House, 1-6 Tavistock Square, London WC1H 9NA. ID200457 03/12 MP2429V2MAR12_SL106823_13

Cofio William James.

Mae'r atgofion am yr athro fu ym Mrynrefail am gyfnod yn parhau. "Dyn del a thrwsiadus, a'r genod wedi mopio arno" oeddd disgrifiad Margaret Cynfi. Mae'n cofio dysgu cân yn Lladin, gyda'r altos yn cychwyn gyda 'Fac ut arderas cormero'. Caneuon eraill yn aros yn y cof yw 'Nymphs and Shepherds', 'O Hyfryd Hedd', 'Once there was a dragon' a 'Jerusalem'.

Mae hefyd yn gallu enwi rhai o'r aelodau sydd yn y llun, sef Mrs Evans, Tan y Foel, Deiniolen (chwith eithaf) a Mrs Ethel Roberts o'i blaen.

Angladd Merch Ifanc o Glwt y Bont.

Daeth ymateb llawn gan Robert Williams, Waunfawr, ond oherwydd diffyg gofod bydd yn rhaid gohirio'r adroddiad cynhwysfawr hwn tan y mis nesaf.

Daeth ymateb hefyd i'r digwyddiad hynod ym Mhenscoins, a mwy am hynny hefyd y mis nesaf.

Cysylltwch ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes bro'r "Eco" drwy lythyr i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon, ar y ffôn (01286 673515)

neu ar chwilota.wordpress.com

ECO'r
Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

Ysgol Waunfawr

Wedi'r hanner tymor daethom 'nôl i'r ysgol i ddatlu Wythnos Cymru Cŵl!

Bu'n wythnos wych! llawn gweithgareddau amrywiol a'r holl blant wedi mwynhau'r profiadau cyfoethog a gawsant. Hoffem ddiolch i'r holl ymwelwyr a fu'n yr ysgol, cawsom sesiynau addysgol arbennig drwy gydol yr wythnos. Diolch i Anna Williams a'r mamau a fu'n helpu yn yr ardd. Diolch i fam a tad Rhys Sykes am roi cymaint o groeso i Flwyddyn 1 a 2 yn y Garej Skoda. Diolch hefyd i Sefydliad y Merched am ddarparu te bach i'r plant ac i Mrs Gracie Dawson a Mrs Catherine Jones am fod mor barod i ddod i'r ysgol i gael eu holi gan y plant.

Yn ôl ymatebion cadarnhaol y plant bydd wythnos Cymru Cŵl yn un o uchafbwyntiau blynyddol yr ysgol o hyn ymlaen. Dyma'r holl weithgareddau a gafwyd yn ystod yr wythnos:

Clwb 300 Enillwyr y clwb am fis Chwefror oedd £30: Mr Neville Owen, Bryngwylan; £20: Ms Sharon Lewis, 13 Tref Eilian; £10: Mrs Sali Burns, Tŷ Capel Croesywaen.

Llun Ysgol Waunfawr yn y 30'au Yn dilyn gweld llun o ddisgyblion ac athrawon Waunfawr yn rhifyn Chwefror o'r Eco cysylltodd Alvona (gynt o'r Siop Chips) i ddiolch i swyddogion yr Eco am ei gynnwys gan mai ei thaid, y diweddar Mr Williams, Tŷ Gwyn, yw'r athro sy'n sefyll ar y chwith.

Ond diolch i Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt, am gysylltu â'r Eco ac enwi y

mwyafrif o'r disgyblion yn yllun. Bydd darllen y rhestr yn y rhifyn hwn o'r Eco yn ddiddorol iawn i drigolion a chyn-drigolion y Waun, yn enwedig os y bydd aelod o'r teulu ynddo.

Diolch o galon i Mrs Jones a diolch i'r sawl anfonodd y llun i'r Eco.

Plant y Waun

Llongyfarchiadau i blant y pentref sy'n ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac wedi llwyddo i dderbyn gwobr am eu hymdrechion yn y gwahanol bynciau.

Llongyfarchiadau i aelodau cangen yr Urdd y pentref a fu'n cystadlu yn y Eisteddfod Cylch. Er na ddaeth y wobwr gyntaf i'w rhan, roedd yn brofiad gwerthfawr iddynt. Diolch i'w hyfforddwyr.

Da iawn aelodau'r Clwb Sul am gymryd rhan yn y gwasanaeth arbennig am Ddewi Sant yn yr oedfa fore Sul, Mawrth 9fed. Roedd gennych wybodaeth dda am eich Nawddsant.

Llongyfarchiadau Rydym braidd yn hwyr yn anfon ein dymuniadau gorau i John Coles, Stad Bro Waun, ar ei briodas â Kalina yn ddiweddar. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

Gwellhad Buan Croeso adref o'r ysbyty i Mr Rol Williams, Ardwyn, a Siôn Jones, Penrhos, a fu yn yr ysbyty am ddwy wythnos. Hyderwn y byddwch yn gwella bob dydd wedi cael dod adref.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau da am wellhad i Mrs Luned Coles, Bro Waun, sydd wedi derbyn tair triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl.

Yr un yw ein dymuniad i Mrs Nelma Pritchard, Stad

Croesywaun, mae hithau hefyd wedi derbyn triniaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Anfonwn ein cofion cynhesaf hefyd at bob un o'r pentref sydd heb fod yn teimlo'n dda yn ddiweddar ac at Mrs B. Coles sydd wedi mynd i aros dros dro i Gartref Plas y Bryn, Bontnewydd.

Bedydd Yn ystod gwasanaeth arbennig ddydd Sul, Mawrth 9fed, yn Eglwys Betws Garmon, gyda'r Parchedig Donaldson yn gwasanaethu a'i dwy chwaer fawr, Cadi ac Elie, yn gwyllo, bedyddiwyd Loti Jên, merch fach Nia a Mathew Gosset, Cam Cynta.

Cydymdeimlo Yn dawel yng nghwmni ei mab, Kenrick, bu farw Mrs Winnie Evans, Lleifior, yn 94 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi, Kenrick, yn eich profedigaeth o golli mam.

Sefydliad y Merched Ar y 6ed o Chwefror, ein gŵr gwadd am y prynhawn oedd Gareth Roberts o Ddeiniolen. Yn ystod ei sgwrs eglurodd i'r aelodau sut y bu iddo ddioddef gwaieidd difrifol iawn ychydig o flynyddoedd yn ôl ac, wedi gwella, penderfynu ei fod am ddechrau cadw'n heini trwy gerdded ac edrych i mewn i hanes y Rhufeiniaid yn yr ardaloedd yma. Mae wedi cerdded trwy rannau helaeth o Wynedd ac ymhellach erbyn hyn ac wedi tynnu allan a chael argraffu mapiau lliwgar a diddorol iawn o'r gwahanol ardaloedd lle mae'n disgrifio'r lleoedd o ddiddordeb i fynd

i'w gweld. Roedd yr aelodau yn ei edmygu yn fawr iawn. Diolchodd Catherine Jones, y llywydd, iddo am bnawn addysgol.

I ddatlu Gŵyl Dewi eleni daeth 25 o blant yr ysgol i'n diddanu. Cafwyd eitemau unigol, bechgyn yn chwarae offerynnau chwyth a chôr o'r plant yn canu. Roedd yr aelodau wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn teimlo fod llawer o dalent yn yr ysgol. Dymunodd Catherine, y Llywydd, yn dda iddynt pan yn cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, ac hefyd diolchodd i Mrs Gwenan Williams, y Brifathrawes, a Mrs Gwenda Griffith, eu cyfeilydd am hyfforddi'r plant ac am ddod atom.

Ar ôl y cyngerdd eisteddodd yr aelodau i lawr i de prynhawn hyfryd iawn wedi'i drefnu ganddynt.

Ar Ebrill 3, yn y cyfarfod nesaf, Mr Richard Gould o Holland Arms fydd y gŵr gwadd yn siarad am arddio. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun am 1.30 y pnawn.

Diolch. Dymuna Heulwen, Argoed, ddiolch o galon am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn, cardiau a blodau a dderbyniodd yn dilyn ei damwain o dorri ei ffêr. Diolch i weithwyr a staff yr Antur am eu help a'u cefnogaeth. Diolch arbennig i Lowri, Rhys ac Elin.

Mae Heulwen yn falch o ddweud ei bod bellach yn ôl ar ddwy droed ac wrth lyw'r car.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Ebrill

6: Y Gweinidog

13: Parch Olwen Williams

20: (Y Pasg): Parch Dafydd Lloyd Hughes

27: Y Gweinidog

H. E. HUGHES A'i Feibion


Bwthyn Gadlys Llanberis



**GWERTHWR
GLO ac
OLEW GWRES
CANOLOG**

(01286) 870444

"RYDYM ANGEN MWY O
FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



Eisteddfod Waunfawr

Cynhaliwyd Eisteddfod bentrefhynod lwyddiannus yn Waunfawr ar ddydd Sadwrn y 15fed o Chwefror eleni. Bu cystadlu brwd ymysg y plant cynradd yn ystod y prynhawn ac roedd hi'n braf gweld y neuadd bentref yn orlawn, gyda chefnogaeth deilwng iawn i'r cystadleuwyr ifanc. Diolch i bawb fu'n hyfforddi'r plant, yn arbennig i staff Ysgol Waunfawr - mae'r pwyllgor yn hynod ddiolchgar am eu cefnogaeth ac yn gwerthfawrogi eu holl waith caled i sicrhau llwyddiant yr Eisteddfod pob blwyddyn. Roedd gweld y niferoedd oedd yn cystadlu yn dyst i ymroddiad yr athrawon a chafwyd gwledd drwy gydol y prynhawn. Dyfarnwyd Cwpan Er Cof am Ffion Haf am y perfformiad gorau yn yr adrannau Llefaru a Cherdd oed cynradd i Mabon Roberts a Thlws er Cof am Leslie Jones am y gwaith Llên mwyaf addawol yn yr oedran cynradd i Beca Haf. Cafwyd digon o hwyl a thynnu coes yn ystod Eisteddfod yr hwyr gyda Tim y Post yn mynd a hi o drwch blewyn unwaith eto! Jana Jones gipiodd y gwpan er cof am Wmffra Jones yn y gystadleuaeth canu emyn eto eleni. Diolch arbennig i'r beirniaid gwyh, Glesni Owen ac Anwen Hughes wnaeth ymuno yn yr hwyl ar y noson, a diolch hefyd i'r beirniaid Celf a Llên, Elin Huws a Meinir Dauncey Williams. Braf oedd gweld Eisteddfod pentref Waunfawr yn ôl ar ei thraed gan obeithio y bydd yn mynd o nerth i nerth am flynyddoedd i ddod.



Beca Haf – enillydd Tlws er Cof am Leslie Jones – am y gwaith llên mwyaf addawol yn yr oedran cynradd.



Mabon Roberts – enillydd Cwpan er Cof am Ffion Haf – i'r cystadleuydd mwyaf addawol o'r adrannau Llefaru a Cherdd.

Canlyniadau Eisteddfod Bentref Waunfawr
Cyfarfod y prynhawn

Cyfarfod y prynhawn
Unawd Llefaru blwyddyn derbyn
1af Miri Sion
2ail Inga Hartsuiker ac Erin Cook
3ydd Fiona Parry a Gruff Flynn
Unawd Canu blwyddyn derbyn
1af Miri Sion
2ail Cadi Lois
3ydd Harri Llewelyn
Unawd Llefaru oed cyn ysgol
1af Lucy Williams
2ail Rhodri ap Owain
3ydd Dion Land a Daniel Boswell
Unawd Canu oed cyn ysgol
1af Llio Ellis
2ail Daniel Boswell
3ydd Lucy Williams
Arlunio Ysgol Feithrin
1af Teilo
2ail Tomos
3ydd Mari
Arlunio blwyddyn Meithrin
1af Frazer Hurst
2ail Alaw Rowlands
3ydd Tyreese Palmer
Arlunio blwyddyn derbyn
1af Inga Hartsuiker ac Erin Cook
2ail Caleb John
3ydd Harri Llewelyn
Unawd Llefaru bl 1 a 2
1af Eric Hartsuiker
2ail Bella Jones a Grace Flynn
3ydd Osian Cai
Unawd Canu bl 1 a 2
1af Ella Williams

2ail Bella Jones a Grace Flynn
3ydd Efa Davies a Deri Burns
Unawd Llefaru bl 3 a 4
1af Nel Gwilym
2ail Iago Pritchard
Unawd Canu bl 3 a 4
1af Iago Pritchard
2ail Nel Gwilym
3ydd Sophie Roughley a Claire Owen
Unawd Llefaru bl 5 a 6
1af Poppy Burns
2ail Beca Elan
3ydd Beca Haf
Unawd Canu bl 5 a 6
1af Dylan Williams
2ail Beca Haf a Poppy Burns
3ydd TomosWilliams, Beca Elan a Gwion Roberts
Unawd Alaw Werin
1af Beca Haf
2ail Beca Elan
3ydd Poppy Burns
Cân Theatrïg
1af Grŵp Iolo
2ail Grŵp Iwan
Unawd Piano hyd at fl 4
1af Efa Davies
2ail Sophie Roughley
3ydd Mabon Roberts a Claire Owen
Unawd Piano bl 5 a 6
1af Beca Elan
2ail Poppy Burns
3ydd Beca Haf a Meilir Parry
Unawd Offerynnol hyd at fl 4
1af Mabon Roberts
2ail Elin Smith
Unawd Offerynnol bl 5 a 6

1af Meilir Parry
2ail Gwion Roberts
3ydd Sion Gwyn
Cystadleuaeth Dawnsio
1af Mabon Roberts
2ail Grŵp Beca Haf a Beca Elan
3ydd Grŵp Efa a Poppy
Parti Llefaru
1af Tîm Lerpwl
2ail Tîm Spurs
Parti Canu
1af Parti Iolo
2ail Parti Iwan
Arlunio bl 1
1af Grace Flynn
2ail Aled Wyn a Cadi Davies
3ydd Deri Burns
Arlunio bl 2
1af Gruff Llwyd ac Elis Parry
2ail Alaw Owen
3ydd Ava Costello ac Efa Llwyd
Arlunio bl 3
1af Cai Young a Nel Gwilym
2ail Cadi Mai
3ydd Erin Jones
Arlunio bl 4
1af Sophie Roughley
2ail Cian Williams
3ydd Llio McGee
Arlunio bl 5
1af Poppy Burns a Jon Mill
2ail Lili Griffiths ac Efa Medi
3ydd Beca Elan
Arlunio Bl 6
1af Meilir Parry
2ail Gwion Roberts a Iolo Morris
3ydd Iwan Llwyd

Ffotograffiaeth oed cyn ysgol
1af Llio
Ffotograffiaeth bl 1
1af Noa Jones
Ffotograffiaeth bl 2
1af Gruff Llwyd
Ffotograffiaeth bl 3
1af Arian Mathews
Ffotograffiaeth bl 4
1af Mabon Roberts a Iago Pritchard
Ffotograffiaeth bl 6
1af Gwion Roberts
Llên bl 3
1af Ela Grug
2ail Cadi Mai
3ydd Nel Gwilym
Llên bl 4
1af Claire Owen
2ail Emma Clack
3ydd Iwan Ynyr
Llên bl 5
1af Beca Haf
2ail Efa Medi
3ydd Beca Elan
Llên bl 6
1af Sion Ifan
2ail Dylan Williams
3ydd Meilir Parry
Cyst Grŵp Anti Kaya
1af Morgan Anderson
2ail Celt Rowlands
3ydd Nathan Macleod a Jon Mill

Enillydd Cwpan Er Cof am Ffion Haf i'r cystadleuydd mwyaf addawol o'r adrannau Llefaru a Cherdd – Mabon

**Canlyniadau Eisteddfod
Bentref Waunfawr**

Roberts	2ail Wendy Jenkins
Enillydd Tlws Er Cof am Leslie	3ydd Iola Llew a Gwenda Griffiths
Jones i'r gwaith mwyaf addawol yn yr adran Llen – Beca Haf	Llefaru i Ddysgwyr
Eisteddfod Nos	1af Jana Jones
Moli'r Beirniad	Grŵp Cerddorol
1af Tîm Croes Waun	1af Hogia Waun
2ail Tîm y Post	Ffotograffiaeth uwchradd
Llefaru Unigol	1af Enlli Pritchard
1af Enlli Pritchard	2ail Emyllt Roberts a Cai Morgan
2ail Cai Morgan	3ydd Mabon Pritchard a Tomos Morgan
Unawd Canu oed Uwchradd	Deuawd, Triawd neu Bedwarawd
1af Mabon Pritchard	1af Iola Llew ac Elen Roberts
2ail Gwen Townsend	2ail Ioan a Pegi Talfryn
3ydd Cai Morgan	Ymgom neu Sgets oed Uwchradd
Llefaru agored	1af Tîm y Post
1af Sioned Parry	2ail Tîm Croes Waun
2ail Olwen Williams	Parti Darllen ar y Cyd
3ydd Sally Burns a Mererid Llwyd	1af Tîm Croes Waun
Unawd Offerynnol oed uwchradd	2ail Tîm y Post
1af Enlli Pritchard	Canu Emyn
2ail Tomos Morgan	1af Jana Jones (ac enillydd Cwpan er cof am Wmffra Jones)
3ydd Cai Morgan ac Emyllt Roberts	2ail Eurig Wyn
4ydd Tomos Parry a Morgan Jones	3ydd Robert Townsend
Darllen darn heb ei atalnodi	Sgets agored
1af Irene Roberts	1af Tîm y Post
2ail Ioan Talfryn	2ail Tîm Croes Waun
3ydd Anna Williams	Cystadleuaeth Ffotograffiaeth agored
4ydd Morgan Jones	1af Owain
Unawd Canu agored	2ail Olwen Morgan
1af Jana Jones	3ydd Rhys Jones
2ail Elen Roberts	Cystadleuaeth y Llinell Goll
3ydd Pegi Talfryn	1af Olwen Morgan
4ydd Huw Ynyr	2ail Olwen Morgan
Parti Llefaru oed uwchradd	3ydd Olwen Morgan
1af Tîm y Post	4ydd Olwen Williams
2ail Tîm Croeswaun	Enillwyr Tlws y tîm buddugol (rhodd gan deulu Pant Teg) – Tîm y Post
Cystadleuaeth Llên uwchradd	
1af Tomos Morgan	
2ail Tomos Parry a Tomos Sion	
3ydd Huw Williams	
Unawd Offerynnol agored	
1af Olwen Morgan	

**Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig.
(Miss Wyn)**

Daeth arswyd, brawychwyd bro – a'i niwed
gan newydd sy'n brifo:
anodd dychmygu'r huno...
daw i bawb ei alwad O!

Bu'n flaenllaw fel athrawes – yn ei dydd
a da fel actores,
annwyl y fro a'i hanes
a llyw yn Sardis er lles.

Gorlawn fu Ty'n y Fawnog – yn aelwyd
i'r hen deulu serchog,
cyflawn, os is-rif cyflog
Ion yn llwydd Ei iawn yn llog.

O gofio'r gymdoges gyfiawn – marwodd
cymeriad cariadlawn;
er trymder a'r gwacter gawn,
arlwy'r atgofion gorlawn.

Yn Ninorwig, ffyrnig ei ffydd – arwyr
i'r chwarel er clodydd
yna'i byd o'i chred bedydd
a rhoi, rhoi o'i doniau'n rhydd.

I'w heddd o'i hir flynyddoedd – a'i holaf
ddirgelwch i'r cyhoedd;
I'w Hen Rwyd – drwy'i gweithredoedd
a Nef y nef – seren oedd.

Norman Closs



**SWIGOD
A
SEBON**

**Gwasanaeth
Golchi
a Smwddio
Altro • Ailwnïo**


**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**

GEIR CYMRU

Diolch am Gefnogaeth ein
Cwsmeriaid yn Eryri
dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

**Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451**



**PROBLEM GYDACH
CYFRIFIADUR?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a
GWELLA EICH CYFRIFIADURON
CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368

COFIO MAM

“Setlais yn iawn yno o’r diwrnod cyntaf, roedd pawb yn glên hefo mi,” oedd geiriau Mam i mi droeon. Cyfeirio yr oedd fy mam, sef Alice Thomas, at gymuned Pen Draw yn Ninorwig a thŷ Dinorwic Cottage y daeth fy mam iddo a hithau yn wyth ar hugain oed yn niwedd Hydref 1947, sef saith mlynedd a thrigain yn ôl. I gartref rhieni fy nhad, sef Hugh Thomas, y daeth a rhai dyddiau ynghynt roedd y ddau wedi priodi yn Eglwys San Rhedyw yn Llanllyfni.

Roedd y ddau wedi cyfarfod ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd wedi i’r nhad roi pum mlynedd yn y fyddin.

O blwyf Llanwnda yr hanai ei mam, Kate, ac ar aelwyd rhif 6 Dinas Cottages y’i ganed cyn symud i rif 4 Ffordd Clynnog, Penygroes, yn fuan gan mai oddi yno y deuai ei thad Owen. Meddyliai mam y byd o Ddyffryn Nantlle a’i drigolion a soniai yn fynych am ei magwrf a yn Ffordd Clynnog neu “dros bont stesion” fel y dywedai. Er mai Bedyddiwr oedd ei thad, aethai hi gyda’i mam i Eglwys Llanllyfni ac roedd mynd yno yn blygeiniol i’r Plygain ar fore Nadolig yn rhywbeth y soniodd amdano wrthym drwy ei hoes. Yn y fynwent ger Eglwys Llanllyfni y gorwedd ei rhieni a’i chwaer, Maggie Ellen, a fu farw ym Mawrth 1926 yn ddeg oed. Roedd ganddi frawd, Willie, a fu farw yn 1956 yn 46 oed gan adael teulu ifanc.

Hysbyswyd fy rhieni yn Ebrill 1953 eu bod yn llwyddiannus o gael tenantiaeth 1 Bro Elidir mewn rhes o ddeg tŷ Cyngor newydd yn Ninorwig, a hynny mewn lle cyn hardd. Gyda Glyn, Margaret a minnau dyma symud i’r tŷ pen lle roedd digon o dir i’r nhad arddio, o’r lle cafwyd cynnyrch ardderchog gydol y blynyddoedd a mam wrth ei bodd yn cadw ieir.

Y rhent cyntaf oedd un deg naw swllt a deg ceiniog. Bu mam ar yr aelwyd am 54 mlynedd ac yno y ganed Gwyneth a Meirion. Cafodd yr aelwyd o saith ohonom deulu drws nesa ardderchog yn Mr a Mrs O.R. Williams ac Irfon, y mab, ac roedd hyn yn wir hefyd am drigolion y stad deg tŷ i gyd. Hyfryd i ni blant oedd chwarae yn iard yr Ysgol led cae i ffwrdd o’n cartref a gweld mam wrthi’n brysur yn rhoi dillad i’w sychu allan ymysg dyletswyddau eraill yr aelwyd.

Ar y llechweddau yn niwedd 1956 chwaraeodd yr eira ei ran creulon a hynny gyda threfniadau tad fy mam a’i brawd a fu farw o fewn chwe niwrnod i’w gilydd. Yn achos ei thad, Owen Jones, oherwydd eira trwchus bu’n rhaid i’r Ymgymwrwr John

Evans wneud sled arbennig a, chyda chymorth un ar bymtheg o chwarelwyr cryfion, ddod ag ef o Ddinorwig i loches Eglwys Crist Llandinorwig yn Neiniolen. Methodd mam oherwydd y tywydd a mynd i Lanllyfni i’w gynhebrwng a cael a chael iddi oedd mynd i dalu’r gymwynas olaf i’w brawd ym Metws yn Rhos.

Sioc i ni fel teulu yn 1965 oedd clywed fod llawdriniaeth fawr ac arhosiad hir yn wynebu ein tad yn Ysbyty Llangwyfan oherwydd effaith ei waith yn y Chwarel. Rwy’n siŵr fod darllenwyr yr Eco yn cofio am Ward Bloc 6 yn Llangwyfan lle bu cymaint o ddioddefwyr y llwch. Yn rhyfeddol daeth fy nhad drwyddi yn dda ond, ac yntau ond yn hanner cant oed, dealodd fod ei oes gweithiol wedi dod i ben. Roedd caredigrwydd pobl Dinorwig yn y cyfnod cythryblus hwn i mam a minnau blant yn ddiahebol ac, yn eu mysg, y Ficer ar y pryd y Canon E. Trefor Jones. Ond diolch i Ysbyty Llangwyfan cafodd fy rhieni bedair blynedd ar hugain gyda’i gilydd wedyn a mwynhau bywyd yn fawr.

Ar golli’r nhad yn 1990 aeth mam ymlaen a’i bywyd yn rhyfeddol o dda; roedd ei hiechyd a’i dycnwch yn caniatáu iddi wneud hynny.

Bendithiwyd ni â mam arbennig ac roedd ei bywyd gwerinol syml wedi ei lenwi â rhinweddau ac esiamplau hynod gyfoethog. Cawsom ganddi y pethau hanfodol i gyd - nid oedd angen dim yn ychwanegol. Pwysleisiai werth Eglwys a chymdogaeth dda ac roedd y ddeubeth hyn yn Ninorwig a’r ardal yn ganolog iddi.

Treuliodd saith mlynedd olaf ei bywyd ym Mhlas Pengwaith yn Llanberis lle derbyniodd ofal a charedigrwydd cwbl arbennig a chariadus a diolchir i bawb yno am hyn.

Gwasanaethwyd yn ei hangladd gan y Parch Ddr Carol Roberts, y Canon E. Trefor Jones a minnau ac bresennol hefyd yr oedd Archddiacon Bangor, Paul Davies a Rheithor Caernarfon, y Canon Roger Donaldson.

Collir mam a phriod gofalus, nain a hen nain addfwyn, mam yng nghyfraith a modryb annwyl hefyd.

Un o gyn-Ficeriaid Plwyf Llandinorwig (1955-1962) a chyfaill mawr i ni fel teulu, sef y Canon R. Glyndwr Williams, gaiff y gair olaf pan ddywedai am ei aelodau a gollwyd –“ceisiwch hi bellach yng Nghymdeithas y Saint, canys yno y cewch hi.”

Idris

Dathlu Pen-blwydd Llongyfarchiadau mawr i Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch gynt, sydd yn cartrefu ar hyn o bryd yn Bryn Lliffon, Bangor, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn ar y 3ydd o Fawrth. Drwg gennym ddeall nad yw Mrs Griffith yn rhy dda ar hyn o bryd, felly gobeithio am adferiad iechyd buan iddi fel y bydd yn gallu mwynhau y gwanwyn a’r haf. Felly, Mrs Griffith, brysiwch wella a chofion yr ardal atoch.

Diolch Dymuna Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, ddiolch o galon i bawb a gofiodd am ei phen-blwydd ar Fawrth 3ydd. Mae hi’n gwerthfawrogi yn fawr iawn eich cyfarchion a’r rhoddion a dderbyniodd tra yng Nghartref bryn Lliffon ym Mangor.

Marwolaethau Y mis diwethaf yr oeddwn yn sôn am farwolaeth dwy o’r ardal ers y Nadolig. Hefo cryn dristwch yr wyf yn gorfod dweud y mis yma eto fod dwy arall o’r ardal wedi ymadael â ni. Y tristwch mwyaf yw nad oes neb sydd yn siarad Cymraeg yn dod yn eu lle. Fel y mae pethau yn mynd fydd dim ond Saesneg i’w glywed yn yr ardal. Ychydig iawn ohonom ni fel Cymry fydd yn byw yma. Tristwch o’r modd mwyaf.

Ar y 4ydd o Fawrth bu farw Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, yng Nghartref Plas Pen Gwaith, Llanberis, yng nghwmni ei theulu. Er nad oedd Mrs Thomas yn un o blant yr ardal, yr oedd wedi byw yma am dros drigain mlynedd ac wrth ei bodd yn yr ardal. Wedi iddi briodi â Mr Hugh Thomas bu iddynt gartrefu yn Ninorwig Cottage pryd y ganwyd iddynt dri o blant, sef Idris, Glyn a Margaret. Yn mis Ebrill 1953 bu iddynt symud i fyw i 1 Bro Elidir lle y ganwyd Gwyneth a Meirion, felly yr oedd iddynt bump o blant i gyd. Tra bu i’w gŵr ei rhagflaenu bum mlynedd ar hugain yn ôl, er hynny dal ati a wnaeth Mrs Thomas a chadw’r cartref i fynd.

Saith mlynedd yn ôl, a’i hiechyd yn dirywio, bu raid iddi adael ei

chartref a symud i Gartref Plas Pengwaith, lle y cafodd bob gofal a charedigrwydd a bu iddi gartrefu yno yn reit hapus. Cafodd y gofal gorau yno i’r diwedd. Cafodd oes dda ac yr oedd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 95 cyn ei marwolaeth. Bu ei hangladd yn Eglwys Crist Llandinorwig ar Sadwrn, 8fed o Fawrth, lle y daeth cynulleidfa dda ynghyd a mwyafrif o Gymry yr ardal wedi dod i dalu y gymwynas olaf.

Cymerwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Carol Roberts, Canon Evan Trefor Jones a mab hynaf Mrs Thomas, sef Canon Idris Thomas. Yn bresennol hefyd roedd yr Arch Ddeacon Paul Davies a’r Canon Roger Donaldson, Caernarfon. Rhoddwyd y deyrnged gan Idris ac rwyf yn sicr iawn fod hyn yn galed iawn iddo. Byddai Idris a Meirion yn brysur iawn drwy’r haf yn cadw yr ardd yn dwt iddi ac unrhyw beth arall oedd angen ei wneud, a Gwyneth yn gofalu am y tŷ.

Rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent yr Eglwys. Colled fawr iawn i’r plant a’r ardal. Gobeithio y cant nerth i gofio y pethau gorau am eu mam ac na fydd eu magwraeth yn mynd yn angof oherwydd cawsant eu dwyn i fyny ar aelwyd grefyddol. Hedd Perffaith Hedd.

Ar brynhawn Sul, y 9fed o Fawrth, daethpwyd o hyd i gorff Miss Elen Wyn Jones yn farw yn ei chartref, Ty’n y Fawnog, yn 91 mlwydd oed. Brawychwyd yr ardal gan ei bod allan ac ynglŷn â’i phethau y dydd Mercher cynt. Merch i’r diweddar Mr a Mrs Ifor Jones ydoedd, ac wedi bod yn dysgu ar hyd ei hoes. Yr oedd yn flaenor yn Eglwys y Bedyddwyr Sardis a’r eglwys yn dod gyntaf bob amser a byddai’n gweithio yn galed i gadw’r eglwys i fynd. Roedd Nellie bob amser yn barod i helpu ac yr oedd ganddi wybodaeth eang ac yn wybodus iawn am yr ardal. Bu ei mam fyw dipyn dros ei nawdeg a chafodd Nellie wybod llawer am yr ardal ganddi. Parchus iawn o bawb y gwelais i hi erioed. Er y sioc o’i cholli mae’n braf meddwl na fu raid iddi ddioddef.



CANLYNIADAU: Eisteddfod yr Urdd cylch Arfon 2014

177 Unawd Merched BI 7-9

- Magi Tudur Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Megan Crisp Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Unawd Bechgyn BI 7-9

2il Ywain Emrys Jones Ysgol Uwchradd Brynrefail

179 Deuawd BI 7-9

- Cerys a Magi Ysgol Uwchradd Brynrefail
- 3. Lleucu Briallt a Llinos Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Unawd Bechgyn BI 10 a dan 19 oed

2il Gwion Wyn Jones Ysgol Uwchradd Brynrefail

3ydd Gwern Llyn Brookes Ysgol Uwchradd Brynrefail

182 Deuawd BI 10 a dan 19 oed

- Gwern Llyn a Rhidian Ysgol Uwchradd Brynrefail

186 Parti Merched BI 7, 8 a 9

- Parti Brynrefail Ysgol Uwchradd Brynrefail

188 Côr S.A. BI 7, 8 a 9

- Ysgol Brynrefail Ysgol Uwchradd Brynrefail

199 Cyflwyno Alaw Werin Unigol BI 7, 8 a 9

- Magi Tudur Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Leisa Gwenllian Ysgol Uwchradd Brynrefail
- 3. Miriam Catrin Lennon Ysgol Uwchradd Brynrefail

213 Unawd Chwythbrennau BI 7- 9

- Huw Emrys Williams Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Rachel Franklin Ysgol Uwchradd Brynrefail

214 Unawd Llinynnol BI 7- 9

- Ynyr Pritchard Ysgol Uwchradd Brynrefail

216 Unawd Pres BI 7- 9

- Owain Llestyn Ysgol Uwchradd Brynrefail

- 3. Iwan Griffiths Ysgol Uwchradd Brynrefail

218 Ensemble BI 7, 8 a 9

- Parti Brynrefail Ysgol Uwchradd Brynrefail

221 Unawd Piano BI 10 a dan 19 oed

- Math Roberts Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Catrin Gruffudd Ysgol Uwchradd Brynrefail

222 Unawd Pres BI 10 a dan 19 oed

- Huw Owen Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Unawd Cerdd Dant BI 7 - 9

- Magi Tudur Ysgol Uwchradd Brynrefail

3. Miriam Catrin Lennon Ysgol Uwchradd Brynrefail

288 Llefaru Unigol BI 7 - 9

- Leisa Gwenllian Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Magi Tudur Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Beca Llwyd Roberts Ysgol Uwchradd Brynrefail

290 Grwp Llefaru BI 7, 8 a 9

- Brynrefail Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Llefaru Unigol BI 10 a dan 19 oed

2. Gwion Wyn Jones Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Ymgom BI 7, 8 a 9

2. Parti Ysgol Brynrefail Ysgol Uwchradd Brynrefail

361 Monolog BI 10 a dan 19 oed

- Anna Wyn Jones Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Math Roberts Ysgol Uwchradd Brynrefail

• Unawd allan o Sioe Gerdd BI. 10 a dan 19 oed

- Gwern Llyn Brookes Ysgol Uwchradd Brynrefail
- Gwion Wyn Jones Ysgol Uwchradd Brynrefail

Bocsys Lloches



trychineb ac eisoes wedi gwneud hynny yn achos y Philipines. Mae cais wedi dod ganddynt i'r ysgol eu cefnogi a dyna pam drefnwyd y diwrnod. Mae criw o ferched y 6ed eisoes wedi gwerthu cacennau at yr achos hefyd - Gwen Townsend, Eiry Price a Glesni Williams.

Yn gyfan gwbl fe gasglwyd £498.95 ar gyfer Apêl y Phillipines. Da 'de



Pnawn opsiynau Blwyddyn 11

Gwahoddwyd nifer o asiantaethau a cholegau addysg bellach i ddigwyddiad a gynhaliwyd yn neuadd yrysgol a drefnwyd gan yr Adran Gyrfaedd a Byd Gwaith. Roedd yn gyfle i ddisgyblion Blwyddyn 11 i holi a chasglu gwybodaeth i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dewisiadau ôl 16.

Roedd cynrychiolaeth gref o Golegau Glynllifon, Menai a Llandrillo sydd yn cynnig dewis eang o gyrsiau a phrentisiaethau. Roedd stondinau hefyd gan Menter a Busnes, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Horizon, Scottish Power, Diwydiant Peirianeg Modurol, Llwyddo'n Lleol a'r Lluoedd Arfog.

Y stondin fwyaf poblogaidd oedd Stondin Blwyddyn 12 a 13 Ysgol Brynrefail!

Crynodeb o gofnodion y 4ydd o Fawrth

Materion o'r cofnodion

Cynllunio Cyflwynwyd ateb Arweinydd Cyngor Gwynedd, Y Cyng. Dyfed Edwards, ynglŷn â Sylwadau'r Cyngor i'r Seminar Cynllunio a phenderfynwyd ei ateb fel a ganlyn:

- Nid oes unrhyw agwedd hiliol gan y Cyngor pan yn ystyried ceisiadau cynllunio. Ystyrir pob cais yn ôl yr angen lleol.
- Os y caniateir y datblygiad yn Blaen y Waun, Deiniolen, bydd y Cyngor yma angen gwybod pa amgylchiadau sy'n wahanol ers i gais gael ei wrthod i deulu lleol.
- Mae'n amlwg nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol i'r anghenion lleol.
- Nid yw'r swyddogion cynllunio yn gwrando ar farn y Cynghorwyr.
- Mae'r lleisiau lleol yn mynd yn wanach ac yn wanach.

Cofnodi yr hyn sydd wedi digwydd wna Sylwadau'r Cyngor, nid amlygu unrhyw farn hiliol.

Baw cŵn Ateb Gwynedd bod biniau wedi eu gosod ym Mhenisa'rwaun, Brynrefail, Deiniolen a Chlwt y Bont.

Gohebiaethau a materion eraill

Y wefan ac e-bost Dywedodd y Clerc bod y storm ar y 25ain o Ionawr wedi achosi difrod i'r linell ffôn a chollwyd y cysylltiad a'r wefan tan y 25ain o Chwefror a'r e-bost tan y 3ydd o Fawrth ar ôl galwadau ffôn di-rif i BT (yn yr India). Pan adferwyd y gwasanaeth sylweddolwyd bod y fellten wedi amharu ar y cyfrifiadur hefyd.

Cynllunio

Cais a dderbyniwyd: Gwêl y Mynydd, 3 Stad Macpela, Deiniolen – codi modurdy cysylltiol.

Sylwadau'r aelodau

Phylip Jones – wyneb y ffordd o gwmpas Bryn Sardis mewn cyflwr drwg iawn, dŵr yn llifo o Lôn Garat yn gwaethygu'r sefyllfa.

Phyllis Ellis – gwaith ar ffordd Perthi, beth sy'n digwydd? Mae Mulcair, Dŵr Cymru a Chyngor Gwynedd yn gweithio yno. Atebodd Hefin Williams y dylai'r gwaith orffen ymhén pythefnos.

Carolyn Roberts – y wal wedi disgyn ym mynediad Brynrefail o'r ffordd fawr – gofyn i Wynedd sicrhau bod y perchennog tir yn ei hatgyweirio.

Jane Pierce – draen ddofn wrth ochr y ffordd ger y 30mya rhwng Penisarwun a Than Gaer.

Elfed Williams – Cyngor Gwynedd wedi gwrthod defnyddio Blue Peris, Dinorwig, fel gorsaf bleidleisio. Angen paentio'r llochesi bws ac atgyweirio un fainc. (y clerch i atgoffa Eric Jones)

Adroddiad i Adran Ffyrdd Gwynedd ynglŷn â'r 3 mater uchod

Dyddiad y cyfarfod nesaf 1af o Ebrill.

Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 18fed o Chwefror 2014:

Cytunwyd i archebu goleuadau ar gyfer coeden Nadolig Cwm y Glo 2014. Penderfynwyd gyrru llythyr i Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt sicrhau bod y pentref cyfan yn cael ei lanhau gan y fan bach glanhau.

Roedd y Cynghorydd Charles Jones wedi cadarnhau fod arwyddion newydd i Minffordd ar eu ffordd. Penderfynwyd gofyn am arwyddion ar gyfer stadau Sŵn yr Efail, Yr Hen Ysgol a Pen y Cae hefyd.

Cytunwyd i ofyn i'r Adran Prifffyrdd a fyddai modd cael arwydd 'Dim Troi' yn mynedfa stad Nant y Glyn ac hefyd arwydd 'Dim parcio' ar y palmant yno. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd arolygu'r parcio yn stad Nant y Glyn a gofyn am arwydd 10mya yno gan fod llwybr poblogaidd iawn yn y stad sydd yn cael ei ddefnyddio gan blant yn cerdded i'r ysgol.

Mynegwyr siom fawr nad oedd cwmni Celtic Souza wedi cwblhau'r gwaith yng nghae chwarae Pwll Moelyn a bod y safle wedi ei adael yn anniogel. Doedd dogfennau Cymraeg yn dal heb eu derbyn na'r llechen sydd am ei harddangos yn y cae. Ceisir rhoi pwysau ar y cwmni i gwbllhau.

Penderfynwyd rhoddi gwahoddiad i'r PCSO newydd, Mike Sambrook, i gyfarfod mis Mehefin. Gwnaethpwyd nodyn o'i rif ffôn: 07896 170139.

Datganwyd pryder am wal sydd yn ymddangos fel pe bai wedi gwanhau a dod allan i'r ffordd yn Tyddyn Elan. Roedd y coed yn dal angen eu tocio ac yn amharu ar y ceir sydd yn teithio yno. Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd eto am hyn.

Dywedwyd bod cynlluniau i symud taleb rhyfel eglwys Cwm y Glo i eglwys Llanrug.

Trafodwyd y bwriad o atal y gwasanaeth bws ysgol yn Llanrug wedi Medi 2014. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gwrthwynebu hyn a gofyn iddynt ail ystyried.

Adroddwyd fod drysau biniau cae chwarae Glanmoelyn wedi torri a bod biniau newydd i'w gosod yno.

Cytunwyd i ystyried trefnu teithiau cerdded llwybrau cyhoeddus y gymuned yng nghyfarfod mis Mawrth.

Dywedwyd bod angen ceisio cael y giang gymunedol i glirio'r llwybr ger Ogwen

Doedd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

* Porth yn nhu blaen yr eiddo ac estyniad deulawr ar gefn yr eiddo – 6 Rhos Rug, Llanrug:

* Newid amod er mwyn galluogi meddiannu'r carafannau statig rhwng 1af o Fawrth a 10fed o Ionawr yn y flwyddyn ddilynol ayyb – Parc Carafannau Tyn y Coed, Llanrug.

* Estyniad i greu porth, simdde a lolfâ haul – 6 Sŵn yr Efail, Llanrug.

* Gwrthwynebydd codi tŷ newydd a chreu man parcio – 7 Stad Minffordd, Llanrug ar sail gor-ddatblygu'r safle a thynnu i lawr wal ger y llwybr troed sydd yn cael ei ddefnyddio gan blant yn mynd i'r ysgol. Cytunwyd hefyd i ddweud bod y cyfeiriad anghywir ar y cais cynllunio.

Cyflwynodd y Clerc gyllideb ddrafft ar gyfer 2014-15. Trafodwyd ei chynnwys ac fe awgrymwyd rhai newidiadau.

Penderfynwyd rhoddi grant o £700 i Seindorf Arian Llanrug, Llewod Llanrug a Cylch Meithrin Llanrug.

Dywedwyd bod y draen sydd rhwng Ysgol Cwm y Glo a'r garej wedi dechrau suddo a'r ffordd wedi cracio o flaen Menter Fachwen. Dywedwyd hefyd bod tyllau yn y ffordd yn y mannau canlynol: Tu allan i Brwynog, Ffordd yr Orsaf; Tu allan i Londis; Tu allan i Fferm Afon Rhos, Ffordd Minffordd; Tu allan i Penbont a sawl rhan yn Stad Glanffynnon. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd edrych i mewn iddynt.



ORIEL CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Pryd i bawb

**Arlwyo at bob achlysur
Yn ynryhw leoliad
Bwffe Blasus o Safon**

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON
(01286) 673190
Symudol 07774 925502

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

COFNODION CHWEFROR 2014:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth y 18fed o Chwefror, 2014 am 7 yr hwyr.

PRESENOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Eurig Druce, Olwen Gwilym, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Barry Davies, Gwilym Evans.

CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 28ain o Ionawr, 2014 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YNCODI O'R COFNODION:

1. Defaid Crwydrol:

Roedd y Grid gwartheg yn dal heb ei osod, yn bennaf oherwydd y tywydd.

2. Llifogydd:

Ar awgrym Barry Davies ac yn ei absenoldeb anorffod penderfynwyd gohirio y drafodaeth ar y cynllun argyfwng llifogydd tan y cyfarfod nesaf.

3. Binau'r Fynwent:

Roedd y Clerc wedi archebu 2 fin ar gyfer y Fynwent. Wedi tair wythnos o oedi a dim golwg o'r binau, gwnaeth ymholiadau a dywedwyd wrtho gan Gyngor Gwynedd mai un fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Fynwent, a bod hwnnw wedi cyrraedd. Ond gan nad oedd hynny yn wir gofynnodd y Clerc am un arall gan holi a fyddai modd i'r Cyngor hwn brynu un arall i wneud cyfanswm o ddau. Yn ôl Dafydd Roberts roedd bin newydd sbon wedi malu'n deilchion wedi ei ddarganfod ym Mynwent yr Eglwys, mae'n ymddangos felly fod CG wedi dod a bin draw, ond fod y gwyntoedd mawr diweddar wedi ei gipio a'i falu'n rhacs. Addawodd y Clerc wneud rhagor o ymholiadau gyda CG.

4. Arwyddion Maes Parcio Nantperis:

Roedd y gwyntoedd diweddar wedi plygu a malu dau arwydd mawr Parcio a Bws Sherpa yn y Nant. Holwyd tybed a fyddai modd cael rhai llai pan fyddai CG neu Awdurdod y Parc yn eu hadnewyddu. Addawodd y Clerc gysylltu.

5. Cysgodfan Bws:

Cytunwyd yn unfrydol i brynu a gosod cysgodfan ger Dolafon er mwyn hwyluso ymwelwyr a'r Feddygfa.

6. Tirlunio Adwy Ffordd Haearn:

Adroddwyd bod y Clerc wedi cael pris rhesymol ar gyfer paratoi'r tir glas ger y gilfan ar gyfer plannu coed a llwyni. Cytunwyd i ofyn i Wyn Lewis wneud y gwaith. Roedd Wyn Lewis hefyd wedi cynnig torri gwair a torri tyfiant ar lwybrau'r Cyngor am yr un pris a'r llynedd. Derbyniwyd y ddau bris.

GOHEBIAETH:

1. CG – Dargyfeirio Llwybrau:

Edrychwyd yn fanwl ar y cais i ddargyfeirio llwybrau yn Glyn Rhonwy ger Llyn Tomos Lewis. Mae cais cynllunio ar gyfer maes carafannau ar gyfer y safle a'r bwriad ydi cau dau lwybr sy'n croesi'r safle, mae nhw un bob ochr i'r nant sy'n gysylltiedig a'r llyn. Bydd y llwybrau newydd yn golygu mynd o gwmpas y safle. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r dargyfeirio oherwydd y cais cynllunio.

2. Iwan Edgar a Cymdeithas yr Iaith Gymraeg:

Llythrau yn ymwneud a chynllunio a'r angen i ystyried yr iaith Gymraeg ynghlwm a Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn. Yn bennaf ar gyfer ardaloedd lle bydd datblygu. Mae safleoedd codi tai yn brin iawn yn Llanberis.

3. CG – Categoriaw Hawliau Tramwy Cyhoeddus:

CG yn bwriadu ail edrych ar y llwybrau a'u hail ddosbarthu. Yn amlwg mae'r Cyngor am arbed arian.

4. APCE: Her Ariannol:

Ymgynghoriad ar gynyddu incwm o gynllunio, parcio a canolfannau gwybodaeth.

5. CG - Arolwg Ailgylchu:

Holiadur.

6. Un Llais Cymru:

Gwahoddiad i'r Cadeirydd fynychu garddwest frenhinol ym Mhalas Buckingham – Dim diolch!

7. Cronfa Dreftadaeth y Loteri: – Manylion cymorthdaliadau / grantiau o rhwng £3,000 a £10,000 mewn perthynas a'r Rhyfel Mawr. 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: ddoe a heddiw.'

8. CG – Adroddiad Blynnyddol Pwyllgor Safonau CG:

Derbyn.

9. CG – Canllaw Cynllunio Atodol -Ynni Gwynt ar y Tir (Rhag 2013) (Newidiadau Arfaethedig i'r CCA, AAS ac ARhC):

Derbyn

10. Y Cerddwyr (RA): Rhybudd Cyfarfod Blynnyddol a rhifyn diweddaraf y NW Rambler.

11. Chwarae dros Gymru: Rhifyn diweddaraf.

12. CG a Cyngor Ynys Môn: Dyddiad seminarau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cŷd – Safleoedd Tai Posibl.

13. Knight Frank / The Crown Estate: Manylu ar gynlluniau trydan dŵr arfaethedig, nid yn yr ardal yma!

CYNLLUNIO: Dim ceisiadau y mis hwn.

YLLWYBRAU a'r FYNWENT:

Y Fynwent:

1) Adroddwyd bod difrod wedi bod i nifer o feddfeini yn y gwyntoedd mawr diweddar. Roedd tair carreg wedi syrthio. Cerrig teuluoedd Owen V Roberts, 2 Ceunant St (m1977); Robert Owen, 38 Afon Terrace (m1965); Ronald Bentley (m1971). Addawodd rhai o'r aelodau geisio cysylltu a theuluoedd yr ymadawedig.

2) Cytunwyd i dderbyn cynnig DW Lewis i dorri gwair y Fynwent a'r Llwybrau (gweler uchod 4.6).

3) Roedd cais wedi dod am gael claddu llwch gŵr oedd yn berchen ar dŷ haf yn Nantperis ers nifer sylweddol o flynyddoedd. Gan nad oedd wedi ei eni a'i fagu na'i enw chwaith wedi ymddangos ar y Gofrestr Etholiadol leol penderfynwyd yn unfrydol cadw at y rheol a gwrthodwyd y cais.

Llwybrau:

Dim

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Ionawr 2013 -

Cyfrif Cyfredol: £13,393.15

Cyfrif Cadw:

£5,332.96

Gwariant y mis-----£1367

Derbyniadau-----£0.26

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR

Adroddwyd bod peth difrod wedi bod i'r ganolfan yn dilyn y storm, a bod coeden wedi syrthio ar gyrion cae UEFA.

DODREFN
PERKINS

2 Ganolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft

PRISIAU CYSTADLEUOL

Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040



YSGOL DOLBADARN



Mr Gareth Roberts a'r llwybrau cerdded Daeth Mr Gareth Roberts i'r ysgol er mwyn trafod ei waith gyda'r llwybrau cerdded yn yr ardal. Dangosodd sioe hynod o ddiddorol i'r plant gan ddangos sut y byddai Llanberis wedi edrych filoedd o flynyddoedd yn ôl, yn ogystal dangosodd hen luniau o'r pentref i'r disgyblion - diolch iddo am ei amser ac edrychwn ymlaen at weld yr arddangosfa newydd yn y pentref.



Sioe 'Hei Hogia Bach' Daeth Catrin a Dyfrig i'r ysgol yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch y Llyfrgell i gyflwyno sioe 'Hei Hogia Bach' er mwyn hyrwyddo llyfrau Cymraeg a Saesneg newydd. Mwynhaodd y disgyblion y rhannau o'r llyfrau hyn yn fawr iawn ac yr oedd digonedd o chwerthin i'w glywed gydag ambell lyfr!



Gŵyl Ddewi yn Ysgol Dolbadarn Bu i disgyblion ddathlu Gŵyl Ddewi eleni a chawsant ginio arbennig Cymreig gan Anti Lynda yn y gegin. Diolch i holl staff y gegin am y bwyd blasus.



Diwrnod Y Llyfr Mawrth 6ed Cafodd y disgyblion wneud gweithgareddau arbennig er mwyn dathlu Diwrnod Y Llyfr gan gynnwys trafod eu hoff lyfrau, astudio gwaith amrywiol awduron yn ogystal â gwisgo fel cymeriadau o Lyfrau Cymraeg. Dyma lun o Rala Rwdins a Sam Tan yn y Cyfnod Sylfaen.

Ffarwelio â Mrs Rhian Roberts-Jones Ar ddiwedd Tymor yr Hydref bu'n rhaid ffarwelio â Mrs Rhian Roberts-Jones. Mae Mrs Roberts-Jones wedi bod yn athrawes yn yr ysgol ers 10 mlynedd ond wedi penderfynu gadael ei swydd i fagu ei theulu ifanc. Hoffwn ddymuno pob lwc iddi hi a'r teulu.

Croesawu Mr Trystan Gwilym Mae Mr Trystan Gwilym wedi ymuno â staff addysgu yr ysgol o ddechrau Tymor y Gwanwyn.

Mi fydd Mr Gwilym yn athro Blwyddyn 4 a5. Croeso mawr iddo i'r ysgol a gobeithio y bydd yn hapus iawn yma yn Nolbadarn.

Eisteddfod yr Urdd Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn ddiweddar a hoffwn ddymuno pob lwc i Guto Selwyn Williams fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir yn ogystal â'r Parti Llefaru a'r Côr.

CAPEL GOT TALENT.



Y cystadleuwyr a'r beirniad.



Deio Roberts, enillydd Capel Got Talent 2014, yn derbyn y tlws gan y beirniad, Arwel Jones. (Stori ar Tudalen 22)

Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Chwefror oedd Nicola Baylis.

Diolch Dymuna Jackie, 2 Llainwen Isaf, a'i theulu ddiolch i chwi oll am eich negeseuon o gydymdeimlad ar farwolaeth Dr Ceri Jones – merch y diweddar Thomas Eilian Jones (Penlon). Mae eich rhoddion hael wedi eu hanfon ymlaen at Hospis Sue Ryder yn Reading

Diolchiadau Dymuna Eryl, Eurwyn a theulu'r diweddar Katie Ellen Griffiths, gynt o 23 Maes Padarn, ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am weinyddu'r angladd ac i Dylan Griffith

am y trefniadau manwl a phroffesiynol.

Pen-blwydd Priodas Arbennig Dymuna Gwen ac Oliver Edwards ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r plant am drefnu gwledd ym Mhortmeirion.

Y Gymdeithas Undebol Yn y cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas, ar yr 11eg o Fawrth, cawsom noson ardderchog yng nghartref hyfryd Mrs Dafydd a Moira Ellis ym Mrynrefail. Cawsom weld gwaith brodwaith cywrair a thlws dlysau hardd o waith Mrs Ellis a'r ffordd roedd yn eu gwneud. Hefyd, gwelsom

waith coed godidog Mr Ellis o amgylch y tŷ a chael ymweld â'i weithdy gyda'r holl beiriannau a gwahanol goedydd a ddefnyddiai. Roedd llafur cariad y ddau yn werth ei weld. Cawsom hefyd, baned, teisen gri a chacen sbwng cartref, a sgwrs hamddenol braf.

Diolch unwaith eto i'r ddau am noson i'w thrysori yn wir. Pawb wedi mwynhau.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, Ebrill 8fed, yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, pryd y byddwn yn cael ein cinio blyneddol. Y Gwesteion fydd y Canon a Mrs Idris Thomas, Deiniolen.

Pawb i ymgynnull am 7 yh, ymholiadau i Dilys Mai ar

01286 871758.

Diolch Dymuna Miss Louie Pritchard, 20 Dôl Eilian, ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd gan deulu, ffrindiau a'r person a'm helpodd ar ôl disgyn ddiwedd Ionawr ac i Karen am gwmpeini i Ysbyty Bangor. Diolch i bawb.

Côr Dyffryn Peris Cychwynnwyd tymor cyngherddau'r Côr ar ddydd Sadwrn, Mawrth y 1af, pan fu'r Côr yn cymryd rhan yn y Dathliad Dydd Gŵyl Dewi yng Nghastell Caernarfon, gyda chymorth unawdydd lleol, arbennig. Ymhen ychydig ddyddiau, ar y 6ed o Fawrth, roeddem yn diddori'r ymwelwyr yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis.

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

BWYD ANIFEILIAID

BOCM • PAULS

GWAIR GWELLT a HAYLAGE

ROBERTS

HENDY PONTLLYFNI CAERNARFON LL54 5EF

Ffôn 07748692100 • (01286) 660254

Dim ond **£169*** y mis

Yn cynnwys

3

- Blwyddyn o yswiriant
- Blwyddyn o wasanaeth arferol
- Blwyddyn o dreth y car
- Blwyddyn o wasanaeth achub
- Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i yrwyr dros 21 oed!

Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafn a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk



* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,586.25, 35 talled misol o £169.00, cost credit a ffioedd £1,277.17 APR 6.6%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Talled misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £206.00. Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 - 34.9 (3.6 - 8.1), Extra Urban 88.2 - 62.8 (3.2 - 4.5), Combined 83.0 - 48.7 (3.4 - 5.8) a CO2 87 - 135.

Parhad LLANBERIS

CAPEL GOT TALENT.

Roedd amrywiaeth mawr o eitemau a phob un yn arbennig o dda:

Sgets: Rhiannon a Guto

Cân: Deio

Jôcs: Jac

Cân: Cadi

Sgwrs Power Point am adar: Ioan

Clown: Tomos

Deuawd: Medi a Cadi

Crefft: Jamie a Marga

Piano: Aled

Cân: Elain

Roedd y beirniad, Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) wedi ei blesio'n fawr, a chawsom sylwadau ganddo ar ôl pob eitem, ac roedd yn canmol pawb a gymerodd ran.

Ar ddiwedd y cystadlu cafwyd paned a bara brith a bisgedi, a chyfle i brynu llyfrau ail law ac i ddyfalu sawl darn o basta oedd mewn jar.

Roedd yr egwyl yn gyfle i'r beirniad benderfynu pwy fyddai'n ennill. Roedd yn anodd iawn penderfynu gan fod y safon yn uchel a'r eitemau mor wahanol i'w gilydd. Ond cyhoeddodd Arwel mai'r enillydd eleni oedd Deio Roberts, a ganodd gân John ac Alun, 'Y Chwarelwr'. Llongyfarchiadau mawr iddo. A phan gyhoeddwyd canlyniad y gystadleuaeth basta gwelwyd mai Deio a enillodd honno hefyd!

Diolch i'r hogiau am drefnu'r noson, paratoi'r llwyfan, derbyn yr arian wrth y drws a gofalu am y stondin lyfrau a'r pasta. Diolch hefyd i bawb a fu'n eu helpu trwy weini'r baned, ac i Mrs Madge Davies am y bara brith.

Diolch i bawb a ddaeth yno i gefnogi ac i fwynhau hwyl y noson, ac i Arwel am ddod atom i feirniadu. Ond diolch yn fwy na dim i bawb a gymerodd ran ac a sicrhodd ei bod yn noson lwyddiannus. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau pob eitem yn fawr iawn.

Cafwyd £106.10 at waith CIC Capel Coch, a bydd hwn yn help mawr un ai i brynu offer i'r clwb neu i helpu at gostau gweithgaredd arbennig. Bydd aelodau CIC eu hunain yn penderfynu sut orau i'w ddefnyddio.

Cyfeillion Plas Pengwaith(EBRILL)

Daeth nifer dda i'r cyfarfod ar y Sed o Fawrth ym Mhlas Pengwaith, nifer o wynebau newydd a'i cyfraniad yn werthfawr iawn. Diolch i'r cartref am y darpariadau yn cynnwys y baned a'r crempogau.

Wedi ystyried beth fyddai o gymorth i'r trigolion a'r cartref, cytunwyd y byddem yn cefnogi cyfarpar Darllen i'r Deillion, gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda tripiâu y trigolion ac adloniant yn y cartref.

Dydd Sadwrn y 12 Ebrill cynhelir Sel Cist Car yn y Ganolfan, Llanberis, byddwch yn gallu archebu bwrdd am £5 trwy gysylltu a Emlyn Baylis, ffon 01286 870312 neu Plas Pengwaith 01286 870360.

Diolch am bob cefnogaeth, a oes gennych chi gyfraniad i wneud ? Dewch i'r cyfarfod nesaf ar y 7fed Mai am 2 o'r gloch yn y cartref.

YSGOL YRRU
ELIDIR
Driving School
Jacqueline Williams
Hyfforddwraig wedi ei chymeradwyo gan yr ASG
07922121226
NEU
(01286) 882269
GWERS GYNTAF
2 AWR AM BRIS 1

GWYNANT PIERCE
CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL
Uned 1
Fferm Bryn Afon
LLANRUG
(01286) 674183
07889899901

Blodau
Racca
PENISARWAUN
Rhodod o'r Galon
Yw Blodau
● **Basgedi Planhigion**
● **Basgedi Crog**
● **Planhigion Gardd**
Hefyd, Compost ar werth
Alwyn a Sarah Jones
(01286) 870605

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER
POB
ACHLYSUR
DEWGS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

Genesis

Yn sydyn – y maent eto
er 'r heth a'r hin yn stryglo,
eiddilwch gwyn yn concro
a golud buddugoliaeth.

O un i un daw'r gweddill,
dant y llew, llygad ebrill
neu'r daffodiliau'n ennill -
yn dal heulwen hudoliaeth,

a syndod fyth ar syndod
trwy air yr hen gyfamod-
bwa, cwmwl a'r gawod ...
o raglen faith rhagluniaeth!

Norman Closs

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

Y mis hwn:

5 gair = da;

10 gair = da iawn;

15 gair neu fwy – ardderchog.

Ateb y mis diwethaf: Glanconwy

O	L	N
D	F	D
G	A	A

Croes y Pasg

Gwelaf bren ar ben y bryn

Ei risgl garw'n gwrido

O gywilydd, poen a loes;

Mae Blagur Bywyd arno

John H. Hughes

Diwrnod agored Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal Diwrnod Agored yn y Pencadlys ym Mae Colwyn ar ddydd Sadwrn y Sed o Ebrill rhwng 11am a 4pm.

Cyfle yw hwn i chi gael gweld a dysgu mwy am yr adrannau arbenigol oddi fewn yr heddlu – gan gynnwys yr Uned Gŵn, Tanio Drylliau, yr hofrennydd, Uned Plismona'r Ffyrdd, yr adran recriwtio, yr ystafell reoli a llawer iawn mwy.

Bydd partneriaid hefyd yn ymuno â ni ar y diwrnod gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ambiwylans, Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Timau Achub Mynydd, y Bad Achub, Gwylwyr y Glannau a mwy.

Mae mynediad am ddim ond mi fydd cyfle ar y diwrnod i roi rhodd tuag at Tŷ Gobaith os dymunir.

Diolch

Delyth Thomas Jones,

Swyddog Marchnata ac Ymgysylltiad Cymunedol

Adran Cyfathrebiadau

Heddlu Gogledd Cymru

Ffôn - 01492 804157

Est 04157

Ebost - delyth.jones@heddlu-gogledd-cymru.police.uk

Byddwch yn wylidwrs o werthwyr pysgod o ddrws i ddrws

Mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd am rybuddio aelodau'r cyhoedd ar draws y sir i fod yn wylidwrs o werthwyr pysgod sy'n mynd o ddrws i ddrws yn ceisio gwerthu gwerth cannoedd o bunnoedd o bysgod ffres.

Yn yr wythnosau diwethaf mae adroddiadau i Safonau Masnach Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru am fasnachwyr yn gwerthu o ddrws i ddrws yn gofyn i breswylwyr, gan gynnwys pobl hŷn, a fyddent yn hoffi prynu pysgod.

Dywedodd Andrew Parry, Swyddog Gwarchod y Cyhoedd o Wasanaeth Safonau Masnach Cyngor Gwynedd:

'Rydym yn bryderus am y sefyllfa, yn enwedig gan nad oes gwybodaeth i gadarnhau os ydi'r busnes wedi cael ei gofrestru fel busnes bwyd yn gyfreithiol yn unol â'r gofynion, ac os ydi'r gwerthwyr yn masnachu o fewn rheoliadau diogelwch a hylendid bwyd perthnasol.

'Yn aml iawn pan mae rhywun yn prynu pysgod gan werthwyr o ddrws i ddrws, nid oes gan y prynwr unrhyw ffordd o wybod sut mae'r pysgod wedi cael eu storio ac os ydynt yn ddiogel i'w bwyta. Yn aml mae gwerthwyr o'r fath yn defnyddio cerbydau heb oergell, a gall materion godi yn ymwneud â labelu ac ansawdd y pysgod.

'Byddem yn nodi mai'r lle gorau i brynu pysgod ydi gan werthwr pysgod ag enw da mewn siop neu stondin sefydledig.'

Os oes gan unrhyw aelod o'r cyhoedd yng Ngwynedd ragor o wybodaeth am y gwerthwyr pysgod, cysylltwch â Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd ar (01286) 682728 neu drwy e-bost ar safmas@gwynedd.gov.uk

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwr**

CHIROPODYDD


RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD

grid ⁷⁶
dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Anrheg priodas arbennig - ac anarferol.



Pan briododd Steven Williams o Lanrug ar Benrhyn Gŵyr yn ddiweddar, roedd wedi trefnu anrheg arbennig o anarferol i'w wraig, Ceri. Mae cyplau bellach wedi hen arfer creu fideo o'r diwrnod pwysig, ond roedd y fideo a baratodd Steven yn go wahanol.

Mae'r fideo yn cynnwys cyfarchion i'w wraig gan nifer o enwogion, gan gynnwys Sam Warburton, Adam Jones a Stephen Jones o'r byd rygbi a Roberto Martinez rheolwr Everton, ymysg enwau eraill fel Matthew Rhys, John Owen Jones (yn canu) a'r comediwyr Jonathan Ross a Jimmy Carr. Ymddangosodd erthygl amdano yn y Western Mail ac ar dudalen flaen y South Wales Echo. Erbyn hyn mae'r fideo wedi cael ei gwyllo dros 4,000 o weithiau ar You Tube hefyd. I goroni'r cyfan, cafodd y ddau ymddangos ar raglen BBC 'The One Show', oherwydd fod gwestai'r noson - Ricky Wilson, sydd yn feirniad ar 'The Voice' - hefyd wedi ymddangos ar fideo Steven, ac wedi gofyn a gai'r ddau ddod ar y sioe gydag ef.

Addysgwyd Steven yn Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Brynrefail. Dymunwn yn dda i Steven a Ceri yn eu bywyd priodasol.

Ysgol Gynradd Aeth naw o ddisgyblion blwyddyn chwech yr ysgol i Ganolfan Hamdden Arfon i gymryd rhan mewn cystadleuaeth athletau dan do. Cafwyd bore ardderchog o athletau yn erbyn ysgolion eraill o ardal Arfon ac ar ddiwedd y bore Ysgol Llanrug oedd yn fuddugol. Bydd y disgyblion felly yn mynd ymlaen i rownd derfynol athletau Gwynedd cyn diwedd y mis. Pob lwc iddynt.

Aeth tîm athletau dan 13 ysgolion Gogledd Orllewin Cymru lawr i Gwmbran yn ddiweddar ac roeddem yn hynod falch fod disgybl o flwyddyn chwech yr ysgol, sef Anya Williams, wedi cael ei dewis i fod yn rhan o'r garfan. Camp rhagorol i ddisgybl cynradd.

Daeth PC Meirion draw i'r ysgol i sgwrsio gyda phob dosbarth yn ei dro. Diolch yn fawr iawn iddo.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 wledd pan ddaeth Mr John Dilwyn Williams draw o'r Archifdy i sgwrsio gyda hwy am y chwedegau. Diolch yn fawr iawn iddo am ei waith.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion canlynol:

Nanw Llwyd - cyntaf gyda unawd chwythbrennau (dan 12 oed),

Nel Jones - ail gyda unawd chwythbrennau (dan 12 oed),

Heledd Richards - cyntaf gyda unawd piano (dan 12 oed),

Cameron Shaw - cyntaf gyda unawd llinynnol (dan 12 oed),

Tomi Llywelyn - cyntaf gyda unawd alaw werin (dan 12 oed),

Tomi Llywelyn - trydydd gyda unawd (blwyddyn 5 a 6),

Buddug Jones - ail gyda unawd cerdd dant (blwyddyn 3 a 4),

Erin Gibbard - ail gyda llefaru unigol (blwyddyn 3 a 4),

Mared Llwyd - pedwerydd

gyda llefaru unigol (blwyddyn 3 a 4),

Siwan Thomas, Heledd Richards, Tomi Llywelyn ac Osian Land - cyntaf gydag ymgom (blwyddyn 6 ac iau),

Llongyfarchiadau hefyd i barti dawnsio gwerin blwyddyn 3 a 4 ac i barti dawnsio gwerin blwyddyn 5 a 6 am ddod yn gyntaf yn eu cystadlaethau hwy ac i'r parti cerdd dant am ddod yn ail a'r parti unsain, y côr a'r band am ddod yn drydydd. Diolch o galon i baw sydd wedi rhoi o'u hamser i hyfforddi'r disgyblion, yn enwedig Mrs Eirian Howells, Mrs Heulwen Evans a Mrs Llinos Evans. Pob dymuniad da i'r disgyblion sydd nawr yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu hefyd yng nghystadlaethau celf a chrefft Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am eu llwyddiant yn y cylch:

Osian Land - cyntaf gyda gwaith graffeg cyfrifiadurol, print monocrom, print lliw, cyfres o brintiau lliw ac ail gyda gwaith lluniadu 2D (blwyddyn 5 a 6),

Owain Larsen - ail gyda phrint lliw (blwyddyn 3 a 4),

Iolo Larsen - trydydd gyda gwaith creadigol 3D (blwyddyn 3 a 4),

Ynryr Gwilym - trydydd gyda gwaith creadigol 3D tecstilau (blwyddyn 2 ac iau),

Padrig Hickey - cyntaf gyda print lliw (blwyddyn 2 ac iau).

Bydd y gwaith a ddaeth yn gyntaf neu ail yn mynd ymlaen i gystadleuaeth y sir. Pob lwc iddynt yno.

Ar fore Mercher, Mawrth 12fed, daeth Cwmni'r Frân Wen at flwyddyn 1 a 2 i berfformio 'Cwprdd Dillad'. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn gan ymateb yn arbennig ar ddiwedd y perfformiad.

GAREJ CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING

Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

Cylch Meithrin Llanrug

Pêl Bonws Enillwyr Pêl Bonws y Cylch hyd yn hyn: Chwefror 22ain – Anne Elis; Mawrth 1af – Meirwen Thomas; Mawrth 8fed – Enyd Jones; Mawrth 15fed – Mair Parry. Mae ambell rif yn dal ar gael os ydych am gymryd siawns

Cyngerdd Gŵyl Ddewi Cynhaliwyd Cyngerdd Gŵyl Ddewi gan blant y Cylch a Chlwb Cinio, Nos Iau, Mawrth 6ed. Braf oedd gweld y plant wedi gwisgo gwisgoedd Cymreig. Diolch i'r plant am ganu yn arbennig, i'r staff am eu dysgu ac i'r pwyllgor am ddarparu paned a chacennau cri.

Pwyllgor Cynhelir cyfarfod nesaf o bwyllgor y Cylch Nos Fercher, Ebrill 30, am 7.15 y.h yn adeilad y Cylch – croeso cynnes iawn i bawb.

Cofrestru plant newydd Os yw eich plentyn yn cael eu pen-blwydd yn 3 oed rhwng Medi 1af, 2014 ac Awst 31, 2015 ac yn dymuno cychwyn yn y Cylch, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y Cylch (01286 674020).

Piano ar Werth Mae piano ar werth gan Ann Parry Jones, Perthi, Bryngwyn, cysylltwch ar 673839.

Brysiwch Wella Dymunwn adferiad buan yn dilyn llawdriniaethau i Mair Huws,

Hafan, Ffordd Glanmoelyn; Dora Roberts, Tanycoed; Einir Hughes, 34 Glanffynnon; Gordon Davies, Sycharth, Bryn Moelyn ac Alun Pierce, Bryn Moelyn.

Pen-Blwydd Dymunwn ben-blwydd hapus arbennig i Gordon Davies, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Manceinion. Cofion gorau atoch, Gordon.

Hefyd, dymunwn ben-blwydd da i Gwilym Williams, Bron Eifion, Ffordd yr Orsaf, fydd yn

91 mlwydd oed ar y 18fed o'r mis.

Diolchiadau Dymuna Berwyn ac Einir Hughes, 34 Glanffynnon, ddiolch o galon i bawb, teulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da yn ystod ac yn dilyn arhosiad diweddar Einir yn yr ysbyty.

Diolch yn fawr hefyd i staff Ward Tegid Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb Cant Chwefror: 1. Mrs S. Williams, Glyn Afon; 2. Mrs B. Roberts, Glanfa; 3. Mrs B. Roberts, Glanfa.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mawrth: 1. Mrs E. Rowlands, Llys Forgan; 2. Mr Cliff Williams, Afallon.

Merched y Wawr

Nos Fawrth, Mawrth 1leg, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau a ddaeth i ddathlu dydd ein Nawddsant. Cychwynwyd yn ôl yr arfer gyda Chân y Mudiad – y tro hwn cawsom lais bas ardderchog i ategu at y ddau lais arferol, sef llais ein gŵr gwadd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

Diolchwyd i bawb fu'n helpu yn y caffi yn Eisteddfod Cylch yr Urdd a gwnaed elw sylweddol. Anfonir ein cofion anwylaf at Mair sydd, o'r diwedd, wedi cael triniaeth i'w chlun a deallir ei bod yn gwella yn dda.

Atgoffir pawb fod linell Gymorth Gymraeg ar gael gan y Samariaid ac anogir pob un ohonom i ledaenu'r gair.

Fel rhan o brosiect i ddathlu 'Diwrnod Rhyngwladol y Menywod' gofynnir i ni edrych am ffyrdd o 'ymbweru menywod yng Nghymru mewn cyfnod economaidd anodd, gofynnir i ni nodi unrhyw beth a ddymunir ar y ffurflen, Cledr y Llaw! – gan nodi ar y bysedd a'r gleidr, e.e. Dyfodol yr iaith, Cymru a'i hysgolion, gweld merched yn llwyddo, rhyddid i leisio barn ac ymfalchio fod gennym Senedd yng Nghymru ayyb. Gofynnir i chwi ddychwelyd y llaw i Ganolfan Merched y Wawr.

Llongyferchir Eryl ac Islwyn ar ddod yn Hen Nain a Thaid i'w gor-wyres fach, Elsie. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan aelodau Pwyllgor Eisteddfod Bentref Penisarwaun am y rhodd haelionus.

Wyneb cyfarwydd i bawb ohonom oedd ein gŵr gwadd, y Parch Marcus Robinson – un sy'n Feistro ar winoedd ac un oedd am geisio'i orau i wneud i ni fel aelodau ystyried yn ddwys a manwl wrth brynu gwin. Dechreuwyd gyda'r gwin gwyn – gan wneud i bawb ddatblygu'r blas, edrych ar y lliw a'i gynhesu. Blaswyd tri math o win gwyn a chynghorid ni pa win i'w weini gyda gwahanol brydau.

Yna blaswyd tri math o win coch gan gychwyn hefo'r Merlot – perffaith gyda stêc, yna Shiraz, y gwin 'melys moes mwy' – ardderchog hefo caserol ac, i orffen, y Pinot Noir – gyda'i effaith cryfach a'i arogl hyfryd. Bu hon yn noson hynod o ddifyr a hwyliog. Diolch i'r Pwyllgor am baratoi'r lluniaeth ysgafn ac am addurno'r byrddau gyda'r daffodiliau.

Diolchwyd i'r Parch Marcus Robinson am noson tu hwnt o gymdeithasol gan y Llywydd, Nan Humphreys. Enillydd y raffl o botyn hyfryd o gennin Pedr oedd Heulwen. Yn wahanol i'r hyn a nodir ar ein rhaglen, cawn gwmni aelod o 'Gisda' ar Ebrill 8fed.

Os am fynychu Gŵyl y Pum Rhanbarth ar y 10fed o Fai, rhowch eich enw i Olwen neu Linda mor fuan â phosib.

Diolchiadau Fe ddymuna holl drigolion Hafan Elan ddiolch o galon i'r Clwb Ieuencid am eu rhoddion i bawb o 'hamper' o fwyd.

Maent yn hynod o falch o'u derbyn ac yn gwerthfawrogi eu caredigrwydd yn arw iawn.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Ysgol Gymuned Penisarwaun



Sioe “Hei Hogia Bach” - Croesawyd Dyfrig Evans a Catrin Mara i'r ysgol bore dydd Mawrth, Chwefror 18fed. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando arnynt yn cyflwyno storiâu o wahanol lyfrau mewn arddull hwyliog iawn.

Gala Nofio – Bu rhai o ddisgyblion Bl 3 i 6 yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon dydd Iau, Mawrth 13eg. Llongyfarchiadau i bawb am gymryd rhan, daeth yr Ysgol yn 4ydd allan o 12 ar y diwedd da iawn chi!

Dydd Gŵyl Dewi - Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol mewn gwisg yn gysylltiedig â Chymru ar Fawrth 1af. Yn y prynhawn cynhaliwyd pnawn Te Cymreig gan bwyllgor y Neuadd Gymuned gyda phlant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor yn paratoi'r adloniant. Roedd llawer o wahanol bobol o'r Gymuned wedi troi i mewn ac wedi mwynhau eu hunain yn arw. Gobeithiwn gynnal prynhawn tebyg y flwyddyn nesaf.

Apêl Marie Curie - Cefnogodd yr ysgol yr apêl deilwng yma eto eleni gan werthu Cennin Pedr ar bin. Cyfanswm y casgliad oedd £20. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Eisteddfod Cylch yr Urdd – Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ysgol Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 8fed. Diolch i bawb am wneud eu gorau, a llongyfarchiadau i'r Parti Unsain a ddaeth yn 1af, ac Elin Thomas yn 3ydd yn yr unawd piano. Dymunwn bob lwc iddynt yn yr Eisteddfod Sir a gynhelir yn Neuadd Pritchard Jones Bangor dydd Sadwrn, Mawrth 22ain.

Diwrnod Hyfforddiant - Cynhelir dyddiau o hyfforddiant i'r staff ar ddydd Llun, Mawrth 31ain, a dydd Llun, Ebrill 28ain. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar ôl gwyliau'r Pasg dydd Mawrth Ebrill 29ain.



Ymweliad - Fel rhan o'r thema “Cartrefi” aeth plant dosbarthiadau Derbyn, 1 a 2 i ymweld ag Amgueddfa Lechi Llanberis dydd Iau, Mawrth 13eg. Cawsant gyfle i weld gweithiwr yn hollti a naddu llechi, gwyllo ffilm ac ymweld â rhes dai “Fron Haul”. Ar ôl cinio cerddodd pawb i bentref Llanberis i edrych ar y gwahanol adeiladau yno. Cafodd pawb hufen ia blasus i orffen diwrnod pleserus.

Piano

Piano

AR WERTH

CYSYLLTWCH AC ANN

(01286) 673839

Piano

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr

www.fframia.com

Ail gylchu Antur Waenfawr – Diolch i bawb sydd yn dod â dillad ayyb i'r bin ail gylchu sydd yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau cyfraniad ariannol i'r ysgol bob tro mae'r bin yn llawn. Daliwch ati!

Diolch i bawb a gasglodd y tocynnau "Wish y Daily Post" yn ddiweddar. Casglwyd 15,563 a derbyniodd yr ysgol siec am £184.48. Rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth gan bawb.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri – Enillydd mis Chwefror oedd Mrs Heddwyn Hughes gyda Rhif 33. Llongyfarchiadau.

Cydymdeimlo – Rydym yn cydymdeimlo gyda theulu y didweddar Miss Gwyneth Owen (Minffordd gynt). Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 11eg.

Anfon Cofion – Mae rhai o drigolion y pentref bellach wedi symud i fyw i gartrefi preswyl ac yn parhau i dderbyn Eco'r Wyddfa bob mis. Anfonwn ein cofion atynt gan obeithio eu bod yn cadw mewn iechyd ac yn mwynhau darllen y papur bro.

Croeso adref o'r ysbyty i Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, a Mrs Blodwen Mowll, 19 Bryn Tirion, sydd wedi derbyn triniaeth i'w llygaid, gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn. Cofion gorau hefyd at unrhyw un arall sydd ddim wedi bod yn teimlo'n dda yn ystod misoedd y Gaeaf, mae'n braf gweld yr haul i godi calon pawb.

Diolch Dymuna Erin a Darren, Siop Gron, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur genedigaeth Myfi Lois.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Wendy a Dafydd Phillips ar ddod yn

Nain a Thaid am y tro cyntaf a Mrs Shirley Jones, Camelot, ar ddod yn Hen Nain. Ganwyd merch fach, Cadi Dafydd, i Mathew a Llinos, nith fach i Gethin a Siôn ac wyres gyntaf i Dafydd a Marian Morris, Deiniolen. Pob bendith i chwi fel teulu.

Ysgol Sul Bosra Yn dilyn Dameg yr Heuwr y mae'r plant a'r athrawon wedi bod yn brysur yn plannu hadau blodau haul gan obeithio y byddant yn gwreiddio ac egino wedi gofal tyner y plant yn eu dyfrio. Difyr oedd gwrandio ar Mr Evie Jones yn adrodd ei atgofion am y caeau gwair ers talwm a'r hwyl o gael eistedd ar ben y das yn y drol a gwylio'r ffermwr a'i weision yn paratoi'r ysgubau a'u casglu i'r ysguboriau.

Pwyllgor Neuadd Bentref Bnawn Mawrth, Mawrth y 4ydd, am 2.00 o'r gloch mwynhawyd orig ddifyr a chymdeithasol yn y Neuadd Gymuned i ddathlu Gŵyl Ddewi a Dydd Mawrth Ynyd. Braf oedd cael cwmni cymaint o ffrindiau o'r pentref a thu hwnt. Dymunir diolch o galon i staff a phlant yr ysgol am eu cyflwyniadau clodwiw – braf oedd gweld y plant wedi gwisgo yn eu gwisgoedd Cymreig a'u crysau rygbi a phêl-droed Cymru.

Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd Efan Jac, Rhiwlas a Glenda Lamb, 7 Bryn Eglwys.

Paratowyd paned a bara brith, teisennau cri a chrempogau gan aelodau'r Pwyllgor. Terfynwyd gyda Hen Wlad fy Nhadau.

Cynhelir Miri Pasg ar nos Fercher, Ebrill 9fed yn y Neuadd Gymuned. Bydd cyfle i'r plant wneud cerdyn, addurno het, addurno wy ac addurno bag. Paratoir paned a bisged a bydd Raffl Pasg ar werth. Croeso cynnes i bawb.



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

Un funud fach ...

HOFF BENNOD

Nid tasg hawdd fyddai dewis hoff bennod o'r Beibl. Wedi'r cwbl mae bron i 1,200 i ddewis ohonynt. Fyddech chi'n dewis un o'r Salmau neu ran o'r Bregeth ar y Mynydd? I'r llythyr cyntaf at y Corinthiaid y byddwn i'n mynd. Nid fi fyddai'r unig un i wneud hynny chwaith gan y byddai llawer iawn o bobl yn debygol o ddewis trydedd bennod ar ddeg y llythyr hwnnw. Ond nid y bennod fawr honno am natur gwir gariad fyddwn i'n ei dewis, ond y bymthegfed bennod, sy'n cyflwyno'r gwirionedd syfrdanol am atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist. Ac wrth i ni nesáu at Wyl y Pasg, mae geiriau Paul yn werth eu darllen a'u hystyried.

Rwyf wrth fy modd gyda chyhoeddiad ac ymresymiad Paul yn y bennod hon. Mae'n dechrau trwy gyhoeddi bod Iesu, a groeshoeliwyd ac a gladdwyd, wedi atgyfodi ac wedi cael ei weld yn fyw eto gan gannoedd o bobl. Ac yna, mae'n mynd ymlaen i egluro y caiff dilynwyr Iesu eu hatgyfodi hefyd. Mae'r ymresymu yn bwylllog ac yn gadarn, a'r hyn yr wyf fi'n ei hoffi fwyaf mae'n debyg yw dewrder dadl Paul wrth iddo glymu holl obaith yr Efengyl wrth y gwirionedd hwn am atgyfodiad Iesu.

Ceir llawer o sôn y dyddiau hyn am ryw 'Blan B' neu'i gilydd. Ym myd busnes a gwleidyddiaeth a chwaraeon fel ei gilydd, mae'n rhaid wrth 'Blan B'. Os yw'r llwybr cyntaf neu'r 'Plan A' yn methu, rhaid wrth gynllun arall neu ffordd arall o weithredu. Ond yn ôl a ddywed Paul yn y bennod hon nid oedd gan Dduw 'Blan B' o gwbl. Roedd gan Dduw ei gynllun i'n hachub ac i ddwyn bywyd i ni. Ac roedd atgyfodiad Iesu yn rhan ganolog ac anhepgor o'r cynllun hwnnw. Byddai Iesu'n byw a marw ac atgyfodi er mwyn ei gwneud yn bosibl i ni gael bywyd trwy gredu ynddo. Dyna'r cynllun. A phetai hwnnw'n methu, doedd dim cynllun arall.

Ac egluro hynny a wna Paul mewn ffordd mor drawiadol ac effeithiol yn y bennod odidog hon. Mae holl obaith y Cristion yn dibynnu ar atgyfodiad Iesu Grist, meddai. 'Os nad yw Crist wedi ei gyfodi, gwagedd yw'r hyn a bregethir gennym ni, a gwagedd hefyd yw eich ffydd chwi.'

Nôl yn y ganrif gyntaf, felly, roedd Paul yn ddigon dewr i gyhoeddi mai celwydd oedd ei holl eiriau o, a gwagedd oedd ffydd y Cristnogion, os nad oedd Iesu wedi atgyfodi. Ac ugain canrif yn ddiweddarach, yr un yw ein tystiolaeth ninnau. Twyll ac oferedd yw'r Ffydd Gristnogol, a'r cyfan a gynigir ganddi, os nad atgyfododd Crist. 'Ond y gwir yw fod Crist wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, yn flaenffwrth y rhai sydd wedi huno.'

JOHN PRITCHARD




GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILs
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Ar ben arall i'r lein

Dyma ni unwaith eto wedi gweld tymor arall yn agor, does fawr i ddweud mwy nad oedd na fawr allan yn gwlychu pluen ar 3 Mawrth. Mi 'es i lawr y 'Finiog am rhyw ychydig, dim i'w weld, na phryfyn ar y dŵr chwaith. Mae rhyw ofergoeledd yn dweud os yw wedi bod yn aeaf gwlyb dydi'r pryfetach ddim am ddangos eu hunain hyd nes ei bod wedi dechrau cynhesu yn iawn. A dweud y gwir, rwyf wedi ei gweld yn araf iawn ar yr afon yn ystod Mawrth ers blynnyddoedd lawer, ond ar y llynnoedd yn enwedig Nantlle mae pethau yn hollol wahanol o agor y tymor ar 20 Mawrth. Flynnyddoedd yn ôl Padarn fyddai'r lle i fod ond, yn anffodus, mae'r pysgota yno wedi dirywio cymaint mae'n gywilydd gennyf ddweud nad wyf wedi gwlychu pluen ar ei ddyfroedd ers y llygredd mawr yn 2009.

Mae'r rhai sydd wedi dal ati yn dweud wrthyf nad ydynt yn dal dim ond draenogiaid. Mae rhywbeth mawr o'i le pan fo rhain yn cynyddu a'r torgoch a'r brithyll yn dirywio. Ond, ar y llaw arall, mae'r awdurdodau yn dal yn benderfynol nad oes dim o'i le a bod dyfroedd Padarn ymysg y puraf yn y wlad. Caiff hyn ei gadarnhau gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn barod i ddynodi'r llyn fel safle nofio dynodedig. Mae'r dynodiad yma wedi dod trwy gais Cyngor Gwynedd. Mae'n amlwg nad oes neb wedi gweld yr arllwysiaidau o garthffos sy'n dod allan o'r bibell dros y ffordd i dafarn Tywysog Cymru.

Ar y 7ed o Fawrth cawsom gyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy Clwyd a Gwynedd a'r Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones, nid oedd yn bosib i gwmni 'First Hydro' anfon neb. Pwrpas y cyfarfod oedd i drafod dogfen 'Adnewyddu Pysgodfeydd Dalgylch Padarn a'r Seiont'. Mae gennyf ofn mai'r un rownd a rownd aeth ymlaen, yr un pwyntiau yn union ac sydd wedi bod ar y bwrdd ers 2009 ond, a dweud y gwir, mae'r peth yn rhyngu 'mlaen er 1992. Ceisiwyd cael rhyw bendantwydd gan Cyfoeth Naturiol ar dynnu allan gynllun a gweithredu arno ond, yn anffodus, doedd dim llawer o synnwyr i'w gael ond bod y corff yn cario allan ymgynghoriad gyda'r bwriad yn y pen draw o gau pob deorfa yng Nghymru. Os daw hyn i rym yna dyna ddiwedd arni go iawn.

Rydym yn cyfarfod fel Grŵp Pysgodfeydd Gwynedd ar 2 Ebrill yn Nolgellau i drafod hyn. Ond mae gennyf ofn fod y penderfyniad wedi ei wneud yn barod. Ein gwaith fydd ceisio dal perswād fod angen deorfeydd ar ddalgylchoedd fel y Seiont ble mae llygredd wedi creu niwed aruthrol i'r amgylchedd. Ond tydi Caerdydd a'r penderfyniadau sydd yn mynd ymlaen yno ddim yn ystyried o gwbwl y llanastr sydd yn y gornel fach yma o'r wlad.

Cyfeiriodd ein Aelod Cynulliad Alun Ffred ei bod yn anghredadwy fod Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a nawr eu dilynydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi gadael i sefyllfa fel hyn ddatblygu. Yn fwy anghredadwy yw bod y corff newydd yma yn gyndyn o gymryd y camau angenrheidiol i ddod â'r llygredd i ben. Mae cwestiwn mawr i'w ofyn a oes eisiau asiantaethau o'r math a hwythau mor gyndyn o ddefnyddio eu pwerau. Does dim dwywaith y buasai'n well ac yn fwy cynaliadwy i'r Cynulliad gysidro trosglwyddo pwerau i gyrff dalgylchoedd afonydd i weinyddu pethau ei hunain. Ceir enghraifft o hyn o'r gwaith sydd wedi ei wneud i glirio aber Afon



Rhos, Llanrug. Mi fydd hyn yn gwneud mynediad rhwydd i frithyll a sewin redeg o'r Seiont i fwrw eu grawn. Mae nifer o is-nentydd yn crefu am waith o'r fath, a dyna ble mae cyd-weithio gyda'r Ymddiriedolaeth Afonydd a thirfeddianwyr yn dwyn ffrwyth. Criw lleol yn cyd-weithio, fel yna mae pethau i fod.

Gan fy mod ar fy mocs sebon gyda phroblemau Padarn, fel y gwyddoch, mae'r gymdeithas drwy ein cynrychiolwyr cyfreithiol 'Fish Legal' wedi gwneud cais i'r Uchel Lys i gael Adolygiad Barnwrol ar weithredu Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru. Mae'r cais wedi cael ei gymeradwyo a bydd yr achos yn cael ei gynnal unai yn Llys y Goron y Wyddgrug neu Caernarfon dros ddau ddiwrnod, 1 - 2 Mai eleni. Bydd yn rhaid rhoi brwsh go lew i'r hen siwt!

Mae cryn waith wedi mynd ymlaen i dacleso'r glannau a hefyd i warchod y gleisiaid a'r brithyll brown sydd yn y ddeorfa. Mae'n amhosib diolch digon i'r criw bach ffyddlon sy'n rhedeg Crawia a chadw'n dyfroedd mor dacles. Mae digon o le i ricriwts newydd, digon o awyr iach ac ymarfer corff i'ch cadw yn iach a heini.

Yn ystod gwyliau'r haf rydym yn gobeithio y byddwn wedi cael pethau at ei gilydd i gynnal ychydig o ddyddiau agored i ymwneud â physgota yn gyffredinol a bydd ein hyfforddwyr ar gael i roi gwersi. Mae Gwesty Seiont Manor yn cefnogi'r fenter drwy roi llyn ar dir sy'n ei ymylu i gynnal y fenter. Lle da i fynd, mae popeth i wneud a'r sgota am ddim, gyda physgod o'r ddeorfa yn cael eu stocio at y ddyrnodiau. Gwylwch ein safle we am y dyddiadau. www.sgl.co.uk. Gobeithio bydd mwy o wybodaeth yn yr Eco mis nesaf.

Hwyl am tro

Huw Price Hughes.



Gwesty Dolbadarn Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

MAE CYSTADLEUAETH GARDDIO BYWYD GWYLLT YN ÔL



Beth am annog bywyd gwyllt i ddod i'ch gardd ac ennill gwobr! Gallai garddwyr yng Ngogledd Cymru ennill gwobr o £100 fel rhan o ymgyrch Arwyr Bywyd Gwyllt Cymru sy'n cael ei ariannu gan The Co-operative in Wales. Hefyd, bydd gwobrau aur, arian ac efydd yn cael eu dyfarnu i erddi haeddiannol. Bydd y beirniaid yn chwilio am amrywiaeth o gynefinoedd; gwrychoedd, pyllau, dolydd, borderi, blychau nythu yn ogystal â dulliau garddio. Nod y gystadleuaeth yw annog defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol megis gwneud compost, defnyddio cynhyrchion di-fawn, casglu dŵr glaw a dulliau amgen o ladd plâu.

Gall unrhyw un yng NGWYNEDD, CONWY neu YNYS MÔN gystadlu – Nid oes rhaid cael gardd berffaith. Yr unig beth sydd angen ichi ei wneud yw cysylltu ag Anna Williams yn Ymddiriedolaeth Bywyd

Gwyllt Gogledd Cymru i gael ffurflen gofrestru (gweler isod). Y dyddiad cau yw 2 Mehefin, a bydd beirniadu yn digwydd ym mis Mehefin a'r gwobrau yn cael eu cyflwyno ym Mhortmeirion ddechrau mis Gorffennaf.

Mae'r categorïau yn cynnwys gerddi preifat (bach a mawr), gerddi ysgol, gerddi cymunedol a gerddi busnes ac mae gwobr o £100 i'w hennill ym mhob categori.

Mae Cystadleuaeth Gerddi Bywyd Gwyllt wedi bod yn cael ei chynnal bellach ers deng mlynedd, ac mae'n cael ei rheoli gan Bartneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt sydd wedi ei lleoli gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.

Mae Arwyr Bywyd Gwyllt Cymru yn ymgyrch genedlaethol sy'n cael ei rhedeg gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru ac sy'n cael ei chyllido yn gyfan gwbl gan yr arian a gesglir o'r tâl am fagiau

siopa untro yn siopau bwyd y Co-operative a fferyllfeydd Cymru.

Bydd mwya na £1m yn cael ei rannu rhwng prosiectau amgylcheddol llawr gwlad ledled Cymru dros y tair blynedd nesaf. Prif ffocws y prosiect yw cefnogi rhywogaethau brodorol a gwella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt mwyaf prin Cymru a bywyd gwyllt sydd mewn mwyaf o berygl, a galluogi pobl Cymru i ddod yn arwyr bywyd gwyllt eu hunain drwy gymryd camau bychain yn eu gerddi neu eu cymunedau lleol. Gall pobl addo bwydo'r adar, creu cartrefi i fywyd gwyllt, plannu gerddi blodau gwyllt neu wneud pyllau.

Meddai Anna Williams, Arweinydd Prosiect Garddio Bywyd Gwyllt:

“Mae diddordeb cynyddol mewn garddio sy'n rhoi sylw i fywyd gwyllt ac rydym yn annog pobl i wneud cyfraniad i fywyd gwyllt lleol sydd hefyd yn gwella iechyd

a lles pobl. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Co-operative am y cymorth amhrisiadwy hwn.”

Meddai Ashley Drake, Rheolwr Aelodaeth, The Co-operative in Wales:

“Mae gweithio gydag Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru yn gyfle arbennig i gael ein haelodau a'n cwsmeriaid i wneud cyfraniad i'r bywyd gwyllt rhagorol a geir ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn hynod o falch y bydd natur yn elwa o'r tâl yr ydym yn ei godi am fagiau siopa yn ein siopau yng Nghymru.”

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 2 Mehefin 2014. I gael gwybodaeth am y gystadleuaeth a sut i gystadlu, cysylltwch ag Anna Williams ar 01248 360981/07772 280970 neu Amy Roberts ar 01248 351541 neu e-bostiwrch: anna.williams@wildlifetrustswales.org


Rifiw Bara Caws – dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn pendilio rhwng y llon a'r lleddf, y melys a'r chwerw, dyma gipolwg ar y pam, y sut, y pwy a'r ble a ysgogodd y gyflafan waethaf a welodd Cymru ac Ewrop erioed.

“Sut daeth hi i hyn, hogia?” yw cwestiwn sylfaenol rifiw gymunedol newydd Bara Caws. Daeth y cast ynghyd dan fentoriaeth Aled Jones Williams i greu rifiw i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Mawr.

Mae dau o hogia'r Waunfawr yn rhan o'r cynhyrchiad – Rhodri Sion yn un o'r actorion ac Osian Gwynedd yn Gyfarwyddwr Cerdd.

Bydd y rifiw yn ymweld a'r Galeri Caernarfon ar nos Iau a nos Wener y 1af a'r 2il o Fai. Gellir archebu tocynnau drwy ffonio 01286 685222.



Clwb Golff Dyffryn Peris

Wedil ei ffurfio yn ôl yn 2007, mae Cymdeithas Golff Dyffryn Peris ar fin cychwyn eu 8fed tymor. Dros y blynnyddoedd mae'r aelodaeth wedi tyfu, nid yn unig mewn niferoedd ond hefyd ffiniau'r aelodaeth. Mae ganddynt bellach aelodau o Lanrug, Caernarfon, Y Felinheli a hyd yn oed Llanfairfechan.

Mae'r Gymdeithas yn rhedeg trip i Glwbiau Golff amrywiol, unwaith y mis ar ddydd Sul. Fel arfer mae bws wedi ei drefnu, a phryd o fwyd wedi ei archebu ar gyfer pawb pan fyddant yn dychwelyd yn ôl i'r clwb. Maent hefyd yn trefnu un taith dros nos, sydd yn llawn hwyl a sbri.

Capten eleni yw Neil Rowlands (Garej Cwm) ac mae'r aelodau yn wir edrych ymlaen i wrando ar ei areithiau ar ddiwedd pob gêm!

Mae croeso mawr i aelodau newydd, felly os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi, cysylltwch efo'r Cadeirydd, Adrian Roberts ar 01286 871665 am fwy o fanylion.



DIDDOROL CYMHARU

Bum draw am wyliau ar ynys Cyprus yn ystod y mis. Gan fod Cyprus yn yr un grwp â Chymru ym Mhencampwriaeth Ewrop diddorol yw cymharu sefyllfa y ddwy wlad ym myd pêl-droed. Ynys ranedig yw Cyprus ers 1974 wedi goresgyniad byddin Twrci â arweiniodd at yr hollt, y rhai Twrciaidd ei naws yn y gogledd a'r Groegwyr ei naws yn y de. Dieflig yw'r 'llinell rannu' a'r 'tir neb' dan oruchwyliaeth yr UN. Rhaid oedd dangos ein passport i groesi.

Fel Cymru un adran sydd i'r Gynghrair genedlaethol yn cwmpasu y gogledd a'r de. Mae'r meysydd digon tebyg i Nantporth ond gyda mwy o derasau. Y torfeydd tipyn mwy yng nghyngair Cyprus. Mae'r teledu yn rhoi sylw teilwng i bêl-droed yr ynys. Ceir tipyn o drafod fel Sgorio ond danghosir mwy o gemau byw yn ystod yr wythnos – gwendid y system yng Nghymru efallai. Yn sicr, mae'r wasg yn rhoi llawer mwy o sylw i'r Gynghrair Genedlaethol yng Nghyprus nag yng Nghymru. Ceir trafod cyson yn y papurau., ac oherwydd y rhwyg dipyn o sylw i brif dimau Groeg a Thwrci fel Galatasary ac Olympiakos. Roedd cefnogwyr Olympiakos ar yr awyren ar eu ffordd i Old Trafford.

O gofio bod canran uchel o Gymru yn darllen papurau Seisnig, yn cael eu boddi gan driniaeth Sky a BT o'r Uwch Gynghrair Seisnig – sy'n llawn o dramorwyr - gellir gweld y talcen caled mae'n cynghrair genedlaethol yn ei wynebu.

Diddorol oedd cymharu cyflogau. Roedd un o'r timau yn aros yn yr un gwesty ac roedd un o'r chwaraewyr yn barod i roi cyfweiliad ag Eco'r Wyddfa 'a much read newspaper in Wales'. Gallai'r prif chwaraewyr ennill hyd at 20 000 ewro y mis –cyflog da iawn, ond y mwyafrif rhyw 5 000 ewro y mis. Mae si bod rhai o chwaraewyr Cymru yn ennill dros £300 yr wythnos.

Yr un enw roedd pawb yn gyfarwydd ag o ar yr ynys oedd Gareth Bale. Roedd Aaron Ramsey a Joe Allen hefyd yn denu sylw. Y farn oedd y buasai Cymru yn rhy gryf os bydd y ser I gyd yno, ond bod cyfle am gem gyfartal ar yr ynys. Cawn weld.

Y GORAU RHY HWYR

Profiad rhyfedd oedd eistedd gyda Mary a dau arall mewn tafarn yng Nghyprus yn gwyllo Cymru yn chwalu yr Alban. O'n cwmpas roedd sgriniau ac ar y sgriniau pob un o gemau Uwch Gynghrair Lloegr gan gynnwys Everton v Caerdydd. Ni ddywedaf ddim am y gêm y gwyliais ar y pwn Sul. (Dim capel i'w gael yng Nghyprus, er bod angen mwy na gweddi ar David Moyes!)

Gan mai dim ond sianelau lloeren oedd yn bwydo'r dafarn rhaid oedd mynd trwy degau o sianelau – Sky, Aljezira, Groeg, Twrci, ... - cyn darganfod Canal+ o Ffrainc.

Gwyllo'r gêm a gwneud ein sylwebaeth ein hunain. Braf oedd gweld agweddau cynhenid ni'r Cymru o'r olwyr yn trafod y bêl yn ddyheig a safon rhai o'r ceisiau yn wirioneddol dda. Braf sylwi nad yw'r ffynnon yn hollol sych o gofio safon echrydus ein rhanbarthau. Bydd y daith i Dde'r Affrig yn dalcen called yr haf yma ond i'r rhai ifanc yn y garfan 'ysgol ddrud fydd ysgol profiad'. Rwyn siwr byddent yn elwa. Gyda Lloegr a charfan sy'n datblygu'n gyflym bydd tipyn o elfennau seicolegol ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad y tymor nesaf fydd yn arwain yn syth at Gwpan y Byd. Cyn hynnu bydd Cymru wedi gwynebu tri o gewri Hemispher y De yng nghemau'r Hydref. Tipyn i edrych ymlaen felly, a sawl pwynt i'w brofi.

PYTIAU WRTH BASIO

Yn dilyn y sylw yn y rhifyn diwethaf braf sylwi fod tîm pêl-rwyd Llanrug wedi codi oddiar waelod y gynghrair lleol. Rhoesant gwair i'r Bangor Red Socks. Dipyn o hunan hyder – hwnna ydi o!

Mae ambell gyfle am dlysau ym myd y Pwl a'r dartiau eleni. Gyda pedair gêm ar ôl yn y gynghrair pwl mae gan Penbont fantais o 6 phwynt ar Wellington A, ond bydd angen i hogia Llanbabs ennill eu gemau i gadw'r ail safle.

Gwantan iawn ydy hi ym myd y dartiau ond mae'r Bedol wedi ennill cystadleuaeth 'rownd y bwrdd' Adran 2 y gynghrair.

Wn i ddim os rhoddwyd sylw i Gynghrair Pêl-droed y Sul yn yr Eco, ond mae tîm Penbont Celts gyda chyfle da o gyrraedd rownd derfynol Cwpan y Brif Adran os gurir Gwalchmai gartref yn yr ail gymal.

Mae gofyn i dîm pêl-droed merched Bethel ennill draw ym Mhrestatyn i gyrraedd rownd derfynol Tarian Gogledd Cymru.

Ystod eang o gystadlaethau felly. Llai o waith sgwenu gobeithio y mis nesaf gyda'r tudalennau chwaraeon yn llawn o dimau'r fro yn gwennu yn derbyn eu tlysau. Rhowch 'hell' iddyn nhw hogia' – a genod!

LAWR AR LANY MÔR

Bydd ‘trip Ysgol Sul’ yn fuan yn Llanrug eleni. Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 12ed. bydd nifer o fysiau a cheir gobeithio yn heidio i faes pêl-droed y Rhyl. Yno yn sicr bydd Llanrug yn wynebu y gêm bwysicaf – o ran statws – yn eu hanes. Rhyngddynt â chipio Tlws Cymru mae tim y Waen, pencampwyr presennol Cynghrair Ardal Wrecsam. Hwyl hefyd yn haeuddu eu diwrnod mawr wedi chwalu Ton a Gelli o’r Rhondda 6-1. Mae’r ddau dîm wedi herio eu gilydd o’r blaen yn y Tlws, pan ennillodd Llanrug 4-2 yn nhrydedd rownd cystadleuaeth 2011. A all hanes ail adrodd ei hun?

Yn sicr, mae Llanrug ar rediad ryfeddol ym mhob gystadleuaeth. Mae’n ymddangos fod Dinbych am gipio’r gynhrai ond bydd yn dynn am yr ail safle rhwng Llanrug a Threffynnon. O gofio fod y tim hwnnw wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol Cwpan Cymru mae’n glod i Gynghrair yr Alliance.

Ond mae cwpan arall ar y gorwel hefyd, gan fod Llanrug– o drechu Glantraeth – drwodd i rownd derfynol Cwpan Cookson. A’u gwrthwynebwyr? Treffynnon. Dyna gêm fydd honno.

Mae pethau wedi gwella draw ar Ffordd Padarn. Gyda gemau mewn llaw mae Llanberis yn gyfforddus erbyn hyn yng nghanol y tabl. Yr ail dîm sy’n denu’r sylw. Pan fyddwch yn darllen hwn, byddwn yn gwybod os fyddent wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol y Junior Cup. Gyda mantais o chwarae gartref gobeithio y byddent wedi trechu Morawelon o ardal Caergybi.

Anghyson o hyd yw perfformiadau Waunfawr ond dylsent gadw eu lle yng Nghynghrair Gwynedd.

Trist yw sylwi fod dau dîm wedi ymadael a Chynghrair Arfon. Annodd credu y dirywiad yn y gynghrair yma. Efallai fod ofnau nifer fod yna ormod o glybiau a dim digon o chwaraewyr yn amlygu ei hun. Hefyd, er mor strwythiedig yw pêl-droed ieuenctid ein hardaloedd, pa ganran o’r chwaraewyr hynny sy’n mynd ymlaen i chwarae i’r tim oedolion wedi’r cyfnod ‘hel tlysau’. Rwyf wedi credu ers sawl tymor bellach bod angen uno Cynghreiriau Gwynedd, Arfon a Môn a ffurfio un gynghrair newydd gyda sawl bynnag adran fydd ei angen. Yna, gellir anelu at brif bwrpas o wella safon yn hytrach na ‘rhoi gêm i’r hogia’.

Mae si bod Bethel am ail godi y tymor nesaf. Ai tim lleol, cawn weld.



Belt Du yn naw oed.

Mae Jack Burman wedi bod yn ymarfer karate gyda’i rieni er pan oedd yn dair oed. Chwe mlynedd yn ddiweddarach, ac ar ol prawf oedd yn parhau am ddwyawr a hanner, llwyddodd Jack i ennill belt du Dan Cyntaf. Yn naturiol, mae ei rieni yn falch iawn o’i gamp, ond hefyd yn ymfalchio yn y ffaith fod dysgu’r grefft wedi gwneud Jack yn fachgen hyderus. Mae Jack yn ddisgybl yn nosbarthiadau ei rieni yng Nghanolfan BMA yn Llanberis. Cynhelir dosbarthiadau dyddiol yno ar gyfer plant ac oedolion.

RHEDEG MYNYDD

Llongyfarchiadau i Rob Samuel, Llanrug ac Alun Vaughan (Llanberis gynt) ar ddod yn ail a phedwerydd yn Ras Hanner Marathon Mon, ac i Dylan W Jones (Deiniolen gynt) ar ddod yn ail dros 40 oed yn yr un ras.

Seren y mis yn ddios oedd Mathew Roberts, Llanberis a fentrodd i ogledd Lloegr i gystadlu yn ras fynydd y Tour of Pendle; clasur o ras ger Clitheroe. Daeth yn drydydd yn y ras, a dim ond dau gyn-bencampwr Prydain lwyddodd i’w ennill ar y diwrnod.

Ganol fis Mawrth cynhaliwyd ail ras Bwlch Maesgwm. Roedd eira trwchus yn bygwth atal ras y llynedd, ond eleni, glaw man a niwl ym mhen uchaf y

bwlch oedd unig effeithiau’r tywydd ar fore penigamp i rasio. Daeth 65 o redwyr i waelod gallt Penceunant, gydag aelodau o Glwb Rhedwyr Eryri yn arwain o’r cychwyn ar y ddringfa serth i fyni’r lon am hen Gapel Hebron. Hyrddio ar draws Cwm Brwynog cyn dilyn llwybr Maesgwm i’r bwlch a throi cyn dilyn yr un llwybr yn ol tua’r diwedd. Martin Cliffe, Eryri oedd yn fuddugol, gyda Dewi Owen (Llanrug gynt) yn ail agos. Arwel Lewis, Bethel oedd yn gyntaf dros 50 oed a Phil Jones, Waunfawr yn gyntaf dros 60 oed.

Mae cyfres rasys nos Fawrth yn dathlu ei phenblwydd yn 21ain oed eleni, ac yn cael ei

Bu’n fis llwyddiannus i redwyr yr ardal.



noddi gan gwmni Joe Brown, Llanberis. Mae deg ras yn y gyfres rhwng Ebrill a Mehefin, a rhaid cystadlu mewn o leiaf pedair i gael siawns am wobr. Mae rasys plant yn rhan o’r gyfres hefyd, a’r rheini’n cael eu noddi gan gwmni Caernarfon Tyres. Cost pob ras fydd £1.50 i oedolion a £1 i blant. Mae pump o’r rasys yn cael

eu cynnal ym mis Ebrill, sef Moel Tryfan (Ebrill 1af), Foel Lus (Ebrill 8fed), Pen Dinas Nant Peris (Ebrill 15fed), Abergwyngregyn (Ebrill 22ain) a Moel y Gest (Ebrill 29ain). Mae’r ras gyntaf yn cychwyn am 7.00, a’r gweddill am 7.15. Dewch yn gynnar i gofrestru.

Hanner cant yn hanner cant.



Beicio hanner can milltir o amgylch Eryri oedd dull Syr David Brailsford o ddathlu ei benblwydd yn hanner cant oed, a hynny ar Ddydd Gŵyl Dewi (er mai ar Chwefror 29ain y ganwyd ef!). Ond roedd mwy na dathlu penblwydd yn digwydd ar y diwrnod. Mae'r elusen 'Gafael Llaw', sy'n cynnwys nifer o unigolion o fro'r "Eco",

wedi tynghebu i godi £100,000 mewn tair blynedd i gynorthwyo plant sy'n dioddef o gancr. Mae £30,000 eisoes wedi eu casglu yn ystod naw mis cyntaf yr ymgyrch.

Yn ystod wythnos gyntaf Awst eleni bydd swyddogion a chefnogwyr 'Gafael Llaw' yn beicio o amgylch Cymru gan ymweld â 13 o ysbytai – a phicio i Loegr hefyd i ysbytai Gobowen ac Alder Hey; taith o dros 1,000 cilomedr.

Derbyniodd Syr David Brailsford y gwahoddiad i fod yn noddwr i'r daith hynod – y Tour de Cymru, a'r daith ar Ddydd Gŵyl Dewi oedd lansiad y farathon feicio. Mae'r elusen yn gobeithio codi tua £50,000 drwy gael eu noddi i gwblhau'r daith, a bydd yr arian yn mynd tuag at Ward Dewi yn Ysbyty Gwynedd, Alder Hey a'r elusen cancr Clic Sargent.

Eu dewis i gynrychioli Prydain ac apêl am noddwyr.

Mae digon o athletwyr o wahanol gampau o'r fro wedi eu dewis dros Gymru, ond anarferol yw i ddau gael eu dewis dros Brydain, a hynny yn yr un gamp. Ond mae Phil Lynes o Lanrug a Owain Llyr James o Ddeiniolen yn edrych ymlaen am daith i Awstria yr haf hwn i gystadlu mewn triathlon.

Mae enwau'r brodyr Brownlee a'r Gymraes Non Stanford yn adnabyddus o fewn y gamp, ond cystadleuwyr proffesiynol yw'r rheini. Amaturiaid yng ngwir ystyr y gair yw Phil a Rhys, a'r ddau yn gorfod talu eu costau eu hunain ar gyfer pob cystadleuaeth.

Gall costau o'r fath fod yn rhai cannoedd o bunnau: mae tair camp triathlon yn gofyn am ddillad arbennig ar gyfer y nofio, beic (a'r gost o'i gynnal) ac esgidiau rhedeg, heb sôn am y tâl o gystadlu a'r teithio i wahanol gystadleuthau.

Tra'n bod yn llongyfarch y ddau ar eu llwyddiant, mae yma apêl hefyd am noddwyr i gynorthwyo'r ddau, oherwydd bydd yn rhaid iddynt dalu eu costau eu hunain am y fraint o gael cystadlu dros Brydain yr haf hwn.

Seren yr Alban. Dyma gwestiwn i ddilynwy'r peldroed sy'n sicr o achosi cur pen iddynt: 'Pa beldroediwr o fro'r "Eco" enillodd ddwy bencampwriaeth beldroed yn yr un tymor?' Fe'ch clywaf yn ateb yn syth ei bod yn amhosibl. Wel nac ydi, oherwydd mae Tomos Jones o Lanrug a siawns cwblhau'r gamp amhosibl!

Mae Tomos, cyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanrug ac aelod o dim peldroed llwyddiannus Ysgol Brynrefail yng nghwpan ysgolion Cymru, bellach yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Stirling, a hynny wedi cyfnod ar brawf gydag Oldham Athletic.

Mae'n chwaraewr canol y cae i dim ei Brifysgol, ond yn bwysicach, mae'n sgorio goliau'n rheolaidd. Ganol fis Mawrth sgoriodd un o dair gôl Prifysgol Stirling yn eu buddugoliaeth yn erbyn Pifysgol Nottingham. Roedd y triphwynt yn ddigon i'w dim ennill Pencampwriaeth Cynghair Prifysgolion Gogledd Prydain. Ar brynhawniau Mercher roedd gemau'r gynghair honno'n cael eu chwarae, ond mae tim Prifysgol Stirling hefyd yn cystadlu bob Sadwrn yn y Scottish Sun Lowland League. Fel roedd yr "Eco" yn mynd i'r wasg, roedd Prifysgol Stirling yn ail yn y gynghair, ond gyda gêm mewn llaw ar y tim ar y brig. Bydd canlyniadau'r gynghair honno yn penderfynu a fydd ail bencampwriaeth i

Tomos a'i dim.

Ond cyndiweddytymormaeun gem bwysig arall yn ei wynebu. Ddiwrnod cyn i'r "Eco" hwn ymddangos bydd Tomos wedi chwarae yng ngêm derfynol Cwpan Pencampwriaeth Prifysgolion Prydain yn Surrey. Yn y gêm gyn-derfynol yn erbyn Prifysgol Pontypridd a Chaerdydd, y Cymro yn nhim yr Alban fu'n gyfrifol am ennill y gêm, gan sgorio'r unig gôl.

Gobaith mawr Tomos ar ôl cwblhau ei gwrs gradd yn Stirling yw dychwelyd i chwarae peldroed llawn-amser. Yn y cyfamser, mae'n mwynhau ei gyfnod yn yr Alban, yn uchel ei barch ymhlith peldroedwyr y Brifysgol, ac yn cael ei ddisgrifio'n aml yn y wasg leol yno fel "the Welsh ace". Ein dymuniadau gorau iddo gyda'i addysg a'i freuddwyd o chwarae peldroed yn broffesiynol.

